PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 396 | Chwefror 2017

**Atgofion Emlyn Rees**
t.10-11





**Cadair i Judith**
t.8

**Ciao Daniela**
t.9




# Pencampwyr



Llongyfarchiadau i Gronw a Betsan Downes, Glanrafon, ar eu llwyddiant yn y Strafagansa Pres a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar yr 21ain o Ionawr. Betsan oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth i unawdwyr pres dan 11 oed, a daeth Gronw i'r brig yn yr adran dan 15 oed. Roedd y ddau hefyd yn aelodau o'r ensemblau buddugol – sef ensemble Ysgol Gymraeg Aberystwyth dan 11 oed, ac ensemble Ysgol Gyfun Penweddig dan 15 oed.




Osian Petts o Ysgol Penrhyn-coch yn derbyn ei wobr gan Kirsty Williams AC am gynllunio logo – gweler t19



A'r Tincer yn mynd i'r wasg clywyd fod John James, Pen-banc, Penrhyn-coch wedi dod yn drydydd yn rownd derfynol Pencampwriaeth Cneifio y Byd yn Invercargill, Seland Newydd. Da iawn John! Gweler t.8

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mawrth**
**Deunydd i law: Mawrth 3. Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 15**

**CHWEFROR 15** Nos Fercher Lyn Ebeneser yn trafod ei gyfrol Gwersyll Fron-goch Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**CHWEFROR 17** Nos Wener Noson yng nghwmni Manon Steffan Ros, "Ysbrydoliaeth". Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30.

**CHWEFROR 18-19** Dyddiau Sadwrn a Sul Rowndiau cyn-derfynol Côr Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau. Tocynnau ar gael am ddim o 10.00 bore Llun 23 Ionawr trwy ffonio 029 2022 3456 neu ebostio corcymru@rondomedia.co.uk **Ni fydd Côr Cymru ar y nos Wener eleni – bydd dwy sesiwn ar y Sadwrn a'r Sul.**

**CHWEFROR 24** Nos Wener Noson Cawl a Chwis yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch, am 7.00.

**CHWEFROR 28** Nos Fawrth Ynyd Noson Grempog gydag Adloniant gan Trefor ac Eleri yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

**MAWRTH 1** Pnawn Mercher Te Pnawn yn Festri'r Garn rhwng 2 a 4 o'r gloch er budd ffoaduriaid Syria

**MAWRTH 1** Nos Fercher Cawl a Chân yng nghwmni disgyblion Ysgol Rhydypennau. Dathliad Gŵyl Ddewi i'r gymuned gyfan am 6.30 yn Neuadd Rhydypennau. £5 yr oedolyn, £2 i ddisgyblion uwchradd. Tocynnau ar werth gan Delyth Morgan, Pwllglas (820656) neu o'r ysgol (828608). Dewch â phowlen a llwy ar gyfer y cawl – a chroeso cynnes i bawb!

**MAWRTH 7** Nos Fawrth Cwis, pwdin a phaned yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 6.30 Mynediad: £3; plant am ddim Croeso i bawb

**MAWRTH 14** Nos Fawrth Bara Caws yn cyflwyno Yfory (Siôn Eirian) yn Theatr y Werin am 7.30

**MAWRTH 17** Nos Wener 'Eisteddfod Fach Eto', dan ofal Geraint Evans, Tal-y-bont. Cymdeithas Lenyddol y Garn, ym Methlehem, Llandre am 7.00.

**MAWRTH 18** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yng Ngwesty'r Richmond, Aberystwyth. Gwraig wadd: Elin Jones AC Manylion gan ac enwau i Richard Owen (820168) cyn nos Sul 12 Mawrth

**MAWRTH 24** Nos Wener Cinio Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion er budd Apêl Seren a'r Sioe. Ocsiwn ac adloniant gan Bois y Gilfach yng Ngwesty Llety Parc am 7.00 £25 i gynnwys pryd 2 gwrs. Tocynnau meinir.evans@hotmail.co.uk 01974 200814

**MAWRTH 25** Nos Sadwrn. Cofiwch droi y clociau awr ymlaen heno!

**MAWRTH 31 - EBRILL 1** Nos Wener a Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn

**EBRILL 5** Nos Fercher Cyngerdd yn Ysgol Penweddig gydag Adran yr Urdd, Aberystwyth; disgyblion Ysgol Penweddig a Chôr Cantre'r Gwaelod dan arweiniad Elen Pen-cwm am 7.00 Mynediad drwy docyn (ar gael yn Siop y Pethe neu gan Alwen Morris ar 01974 241 296. Elw tuag at daith yr Urdd i Batagonia – Apêl Alwen.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn £120; hanner tudalen £80; chwarter tudalen £50. Maint i fyny i 4cm x 6cm, £40 am ddeg rhifyn (£4 y rhifyn am 6-10 rhifyn / £6 y rhifyn am 1-5 rhifyn). Maint dros 4cm x 6 cm a lan i 6cm x 9cm, £60 am ddeg rhifyn (£6 y rhifyn am 6-10 rhifyn / £8 y rhifyn am 1-5 rhifyn). Cysyllter â'r Trysorydd.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ionawr 2017
**£25** (Rhif 273) Cari Jenkins, Cwmbwa, Penrhyn-coch
**£15** (Rhif 4 ) Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 22) Mair England, Pantyglyn, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Ionawr 18

Diolch i bawb a wnaeth ail-ymaelodi a rhai aelodau newydd felly fe fyddwn yn medru cadw y gwobrau yr un peth am eleni.

# Eisteddfodau'r Urdd 2017

**MAWRTH 2** Dydd Iau Gŵyl Offerynnol Cynradd ac Uwchradd yn Theatr Felin-fach
**MAWRTH 8** Dydd Mercher Rhagbrofion Eisteddfod cylch Aberystwyth yn Ysgolion cynradd y cylch
**MAWRTH 8** Dydd Mercher Eisteddfod Uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig
**MAWRTH 9** Dydd Iau Eisteddfod Cynradd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
**MAWRTH 24** Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 yb
**MAWRTH 25** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00
**MAWRTH 9** Nos Iau Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion Aelwydydd yr Urdd yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth am 6.00.
**MAWRTH 10** Dydd Gwener Gŵyl Ddawns yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul

## Enwau llun Ionawr

Diolch i ddarllenwyr am gysylltu efo enwau y bechgyn oedd yn llun tîm pêl-droed Ysgol Penrhyn-coch o Dincer Ionawr (o Ionawr 1997)
Cefn ch-dde Nicholas Foley, Phillip Richards, Alun Price, Gwion Lewis, Simon Jones, Sion James.
Ffrynt ch-dde Iestyn Morgan, (y diweddar) James Evans, Stephen Bishop, Emyr Hughes Jones

## 30 MLYNEDD YN OL



Tîm pêl-droed Ponteurig, sef tîm o Ysgol Ponterwyd ac Ysgol Trefeurig, gyda'r Dr Glyn Jones, y rheolwr.
Llun: Hugh Jones (O *Dincer* Chwefror 1997)

**Mae Cwmni Theatr Bara Caws yn ddeugain oed!**

I ddathlu'r garreg filltir hynod hon, a dathlu cyfraniad y cwmni i fyd y theatr yng Nghymru, mae Gwasg Carreg Gwalch yn bwriadu cyhoeddi cyfrol llawn hanes, atgofion a straeon am weithgarwch y cwmni dros y blynyddoedd.

Oes ganddoch chi unrhyw atgofion o gynyrchiadau Bara Caws? Fuoch chi'n gysylltiedig gyda'r cwmni - yn weithiwr, trefnydd neu'n aelod o gynulleidfa? Yn morio chwerthin neu'n wfftio at eu sioeau clybiau? Beth bynnag fo'ch cysylltiad, hoffwn glywed gennych. Os ydych am gyfrannu, gyrrwch e-bost draw at llyfrbaracaws@gmail.com gyda'ch atgofion a›ch lluniau. Rhannwch nhw, da chi, byddwn yn ddiolchgar iawn o'u cael.

Y dyddiad cau ar gyfer cyfraniadau yw Chwefror 28.

Gyda diolch,
Llŷr Titus

**Rhodd**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Jean ac Iwan Davies, Cnwc y Deintur, Maes-y-garn. £10

## Llythyr

**Annwyl Olygydd,**
Hoffwn dynnu eich sylw at ddau ddigwyddiad sydd ymlaen yn ystod Hanner Tymor

1) Twrnament Pêl-droed a Phêl-rwyd ar yr 22ain o Chwefror i blant Bl 6 + yn Neuadd Gymunedol y Borth o12.00 tan 5.00. Dewch mewn tîm neu yn unigol. Cost: £1 y person
2) Joio@Morlan ar y 23ain o Chwefror i plant Bl 3 – 6 10-4 o'r gloch.

Mae angen cofrestru erbyn 20fed o Chwefror.
Yn gywir,
Zoe Jones
01970 611510
zoejones34@gmail.com
07584411524

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch.
Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Croesawyd pawb yn gynnes i'n cyfarfod mis Ionawr gan ein llywydd, Angharad Jones. Dymunodd wellhad buan i'r aelodau oedd yn sâl – ac yn arbennig i Lis Collison (Gohebydd y wasg) a gafodd glun newydd y prynhawn hwnnw.

Braf oedd cael treulio'r noson yng ngofal un o'n haelodau, sef Jan Armstronga. Dangosodd Jan o Melindwr Textiles enghreifftiau o'i gwaith crosio ar ddechrau'r noson gyda phawb yn rhyfeddu at yr amrywiaeth o wrthrychau a ddangosodd. Nid yn unig daethom yn ymwybodol o'i dawn fel crefftwraig ond hefyd o'r pwysigrwydd a rydd i liwiau yn ei gwaith. Soniodd fel y dechreuodd grosio pan yn blentyn. Ei chwaer Meira fu'n gyfrifol am ei dysgu. Cofia Jan iddi grosio siôl i'w mam oedd yn nyrs mewn ysbyty ac y byddai'n gwisgo'r siôl honno i achlysuron arbennig.

Yna daeth tro gweddill yr aelodau a thynnodd pawb fachyn crosio a phellen o edafedd o'u bagiau. Amrywiol iawn oedd profiad pawb – rhai yn brofiadol, rhai wedi dysgu'r grefft yn y gorffennol ond heb grosio ers blynyddoedd ac eraill erioed wedi profi'r grefft. Fodd bynnag, gydag amynedd, llwyddodd Jan i'n rhoi ar ben y ffordd. Mae'n ddigon posibl y bydd ganddi ddisgyblion ychwanegol yn ei chyfres nesaf



o ddosbarthiadau!

Yn ystod y misoedd diwethaf bu Jan yn cefnogi'r elusen Algerian Action sy'n paratoi pecynnau i fabanod a roddir i famau wrth iddynt adael yr ysbyty. Bu'n crosio blancedi i fabanod ar gyfer yr elusen hon.

Diolchwyd i Jan Armstrong gan Eirlys Davies. Lynne Davies a Delyth Davies oedd yn gyfrifol am y lluniaeth a'r wobr raffl. Enillwyd y wobr raffl gan Eirwen McAnulty.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhian Ellis-Barr ac Anthony Barr, 5 Cefn Melindwr, ar enedigaeth Carn Meical Ellis-Barr bore Sadwrn 11 Chwefror; brawd bach i Erin. Dymuniadau gorau iddynt.

## Llythyr

**Annwyl Olygydd,**

Ysgrifennaf atoch yn fy swydd fel Cadeirydd Mainc Ceredigion Penfro. Yr ydym ar hyn o bryd yn chwilio am Ynadon newydd i eistedd yn bennaf yn Aberystwyth. Yr ydym yn benodol yn edrych am Ynadon sydd yn medru cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gyda ymddeoliadau fe fydd yn anoddach yn y dyfodol i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn Aberystwyth.

Os oes rhywun â diddordeb gallwch gael mwy o fanylion trwy gysylltu â Russell Evans evanswillr@gmail.com 07798862801


## Cyngor Cymuned Genau'r-glyn

**Yn eisiau mor fuan â phosibl**:

**CLERC I GYNGOR CYMUNED GENAU'R-GLYN**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gydag **Ann Elias** trwy e-bost ar **annelias@btinternet.com** os gwelwch yn dda.


## Cyngor Cymuned Tirymynach

Mae problem cŵn yn baeddu caeau chwarae y gymuned yn cynyddu ac yn ofid i rieni a phlant sydd yn mynychu'r cyfleusterau hyn. Adroddir fod rhai perchnogion a'u cŵn yn cerdded y meysydd hyn yn hwyr y nos ac ar y bore cynnar. Bu'r Cyngor yn gohebu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â deddfu ar y mater, ond llusgo traed a wnaethant gan awgrymu bod y broses yn rhys gostus. Penderfynwyd ymholi ymhellach am y posibilrwydd o fabwysiadu is-ddeddf (byelaw). Cwynwyd bod rhai perchnogion yn taflu y carthion dros y cloddiau i diroedd preifat. Fel Cyngor erfyniwn ar berchnogion cŵn i arddel synnwyr cyffredin, gan gofio fod carthion yn medru achosi clefydau difrifol.

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, 26 Ionawr yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. Sian Jones. Hon oedd y noson pryd y penderfynwyd y praesept am y flwyddyn 2017-2018. Sail Treth y Cyngor yw £881.10. Penderfynwyd ar praesept o £19,000, sef £21.57 ar annedd Band D. Gyda llaw, 4% fydd codiad treth y Cyngor Sir eleni.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cyng. Paul Hinge mai 6 yn unig oedd yn bresennol yng nghyfarfod PACT ar ddechrau'r flwyddyn. Ni chafwyd dyddiad am y cyfarfod nesaf. Bydd ef yn galw am gyfarfod arbennig (summit meeting) cyn etholiad Mai parthed parcio ar ffordd Cartref Tregerddan. Newydd da ganddo oedd bod y gwaith i ddiogelu cerddwyr ar ffordd Clarach, tros bont y rheilffordd i gychwyn o gwmpas mis Mawrth. Bydd y ffordd ar gau o 9 y bore tan 3.30 y prynhawn yn ddyddiol am rai wythnosau.

Bu canmol cyffredinol i'r goeden Nadolig o flaen yr ysgol yn ystod yr ŵyl. Mae rhwyd y gôl yng nghae chwarae Bryncastell wedi dod i glawr mewn cwter! Y Cyngor yn parhau i geisio cael rhywun i osod y seti.

Cynllunio. Er gwybodaeth, dangoswyd cynlluniau yr adeiladau estynedig sydd i'w codi gan y Brifysgol yng Ngogerddan. Doedd dim gwrthwynebiad i'r mast ffôn sydd i'w godi ar dir Brysgaga (datganodd y Cyng. Rowland Rees ei ddiddordeb), na gwrthwynebiad i estyniad i annedd yn Cain Fallen (cae Caergywydd gynt).

Dosbarthwyd rhoddion i elusennau lleol fel a ganlyn am eleni. Ffrindiau Cartref Tregerddan £200, Y Tincer £400, Cymdeithas Maes Chwarae Rhydypennau £500, Pwyllgor Henoed £300, Mynwent y Garn £200, (Datganodd y Cyng. Vernon Jones ei ddiddordeb), Mynwent Noddfa £200, Clwb Hoci Bow Street £200, Cylch Meithrin Rhydypennau £200, Ysgol Rhydypennau £100, Ambiwlans Awyr Cymru £200, Noson Tân Gwyllt £300, Neuadd Rhydypennau £1,000, Sioe Arddwriaethol Rhydypennau £150, CAB £200, Clwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont £200, Gŵyl Cerdd Dant 2017 Llandysul £100.

Da deall bod clirio yr anialwch wrth geg ystad Maes Afallen wedi cymryd lle yn ddiweddar. Bydd y cyfarfod nesaf y Cyngor ar 23 Chwefror.

# Y BORTH





### Cymdeithas Henoed y Borth

Daeth yr ieuenctid talentog hyn o Ysgol Pen-glais, gyda'u hathrawes Mrs. Morgans, i Gymdeithas Henoed y Borth ddechrau'r mis i'n diddanu gyda Chopin ar y piano, jig a thonau eraill ar y sacsaffon a chaneuon o Wicked, Les Miserables a'u sioe sydd ar ddod – Sweeney Todd. Am wledd i ni i gyd! Diolch yn fawr iddynt.

### Ysgol Sul St Matthew

Gwnaeth aelodau Ysgol Sul St. Matthew Gristingls ar gyfer eu gwasanaeth a gymerwyd gan y Parchg Stuart Bell, yn yr eglwys ar Ionawr 17ain. Roedd yn braf gweld cymaint o gyfeillion a theuluoedd yn y gwasanaeth.



# LLANDRE

### Merched y Wawr Llandre

Nos Lun Ionawr 16 cawsom sgwrs ddiddorol ar Aloe Vera - Forever Living gan Manon Reynolds o Benrhyn-coch. Roedd yn dangos gwahanol ddefnydd a gellir ei wneud o'r cynnyrch. Diolchwyd iddi hi gan Gwenda James.



**Lyndsey, Cadeirydd y Pwyllgor Rhyngwladol, Nans Morgan a Derrick Whitting, Llywydd y Rotari, mewn gweithgaredd ocsiwn ddistaw yng Nghlwb Brynamlwg yn ddiweddar.**

## Eisteddfod Fach Eto

**Nos Wener 17 Mawrth, 2017**
yn Bethlehem, Llandre
Beirniad: Geraint Evans

### Y Tasgau

1. Brawddeg ar y gair "BRECSIT"
2. Gorffen limrig
   Tra'n spidio ger Capel y Garn
   Fe'm daliwyd gan gamra y farn
3. Trydar – neges gyfoes, Gymreig sy'n darllen yn gyfforddus. Dim mwy na 140 o lythrennau
4. Erthygl i'r Papur Bro ar y thema – "Y Gair Olaf" – tua 200 o eiriau. (erthygl yn mynegi barn am bwnc llosg)
5. Esboniad ar darddiad yr enw "Bow Street"

Y cyfansoddiadau – gyda ffugenw – i'w rhoi, os gwelwch yn dda, i Janet neu Alan neu yn y blwch arbennig ar ben y piano yn y festri

**erbyn bore Sul Mawrth 5ed 2017**

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar agor 6 diwrnod yr wythnos Mawrth-Mai (ar gau Llun ond ar agor Gwyliau Banc)
01970 820 050
Pennau

**owain bebb a'i gwmni**

CYFRIFWYR SIARTREDIG
*CHARTERED ACCOUNTANTS*

Aberystwyth 01970 607920
3 Tŷ Harbwr, Y Lanfa,
Aberystwyth SY23 1AS

Caernarfon 01286 677 624

Pwllheli 01758 612646

post@owainbebb.cymru

owainbebb.cymru

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**

**Shan Jones**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**

GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd
graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod,
Dip.Pod.Med.




newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org

William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

## O'r Cynulliad Elin Jones



**Am amser i fod yn wleidydd!**
Dyw hi ddim yn syndod bod yr ansicrwydd yn parhau wrth i bobl geisio dyfalu beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf wedi'r refferendwm ar adael yr UE. Er yr holl honiadau mai 'Brexit yw Brexit' (neu, yn wir, 'Brecwast'), ni wyddwn eto pa ffurf yn union y bydd hwn yn ei gymryd, neu os bydd, yn y pen draw, yn digwydd o gwbl. Fe wyddwn, wrth gwrs, bod yna risgiau enfawr i ni yng Ngheredigion, boed yn ein prifysgolion, yn ein sector amaethyddol neu yn ein hunaniaethau fel dinasyddion Ewropeaidd.

Petai'n digwydd, mae llawer o agweddau sensitif yn y fantol. Mae sicrhau mynediad at y farchnad sengl yn holl bwysig i economi Ceredigion, rydym ni'n allforio llawer iawn o'n cynnyrch i Ewrop, ond wrth gwrs mae'r cyfnewid diwylliannol yn enfawr i'n myfyrwyr a'n trigolion.

Ar ôl trafodaethau helaeth yn y Cynulliad, roeddwn yn falch iawn, felly, bod Plaid Cymru wedi creu consensws gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen i Gymru yn sgî l yr holl ansicrwydd yma. Mae Ceredigion yn lle agored a chroesawgar, ac rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru nawr wedi ymrwymo i amddiffyn yr ysbryd hwn.

Er hyn, roeddwn yn siomedig iawn y mis hwn i glywed y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu pencadlys Awdurdod Cyllid Cymru, yr asiantaeth newydd ar gyfer casglu rhai o drethi Cymru, yn Nhrefforest yn hytrach nag yn Aberystwyth neu'r Gorllewin. Fe godais botensial Ceredigion fel lleoliad yr Awdurdod Cyllid gyda'r Llywodraeth, felly mae'n siom fawr ei bod wedi penderfynu ar leoliad ychydig o filltiroedd tu fas i Gaerdydd ar gyfer y pencadlys. Fe fydda i'n codi'r mater unwaith eto, er mwyn tanlinellu'r angen am swyddi yn y canolbarth.

Fe gafodd rhai o'r materion mawr yma eu trafod yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Clwb Ffermwyr Ifanc Ceredigion y mis yma. Roeddwn yn falch iawn i feirniadu'r gystadleuaeth ac i glywed cymaint o bobl ifanc yn mynegi eu barn ar sawl mater gwahanol o bwys. Mae pob cyfle sy'n dod i gwrdd â phobl ifanc Ceredigion yn f'atgoffa ein bod yn ffodus iawn i gael cymaint o bobl ifanc brwdfrydig a deallus yng Ngheredigion, ac mae'r CFfI yn enwedig yn rhoi sylfaen gref i arweinwyr y dyfodol.

## Llythyr

**Annwyl Olygydd**,
Gŵyl Hedd Wyn ym Mhenbedw
Gan fod llu o feirdd praff yn perthyn i'ch ardaloedd hoffwn alw sylw eich darllenwyr at yr Ŵyl a drefnir gennym ym Mhenbedw ar 9 a 10 Medi 2017 i gofio cadair ddu Eisteddfod Penbedw 1917, ac ar y Sadwrn o dan ofal Archdderwydd Cymru, y Prifardd Lloyd Owen, cyflwynir seremoni cadeirio'r beirdd yn y prynhawn (Cadair a Dwy Goron ) a bydd croeso i'r gorseddogion i ddod i gefnogi ac i gadeirio a choroni y beirdd ifanc a hyn.

Rhoddir y gadair hardd anghyffredin yn rhodd gan Gymdeithas Hedd Wyn, Fflandrys, am Gerdd, neu gyfres o Gerddi heb fod dros 100 llinell ar y testun HEDD WYN. A dylid anfon y gwaith ataf erbyn 20 Gorffennaf 2017 i 32 Garth Drive, Allerton, Liverpool L18 6HW. Y beirniaid ydyw y Parchedig Ddr Siôn Aled, Wrecsam, a Dr Robin Gwyndaf, Caerdydd, dau fardd meistrolgar. Yr ydym hefyd yn awyddus i gael seremoni Coroni yn y ddwy iaith a hynny ar gyfer pobl ieuainc rhwng 11 a 19 mlwydd oed. Y Testun ar gyfer Cerdd neu gasgliad o gerddi yn Gymraeg ar Yr Arwr ac yn Saesneg ar Yr Hero heb fod dros 80 llinell. Y dyddiad cau 2 Mehefin 2017. Bydd panel yn beirniadu cerddi y goron ac anfoner y gwaith ataf I'r cyfeiriad uchod . Dewch ffrindiau i gael anrhydeddu cerdd neu gerddi gwerth ei gael i gofio yr Arwr o Drawsfynydd.

Gyda diolch,
Y Parchedig D. Ben Rees.
(Cadeirydd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi).

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# BOW STREET

**Suliau**

**Garn**

**10.00 a 5.00**

Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/

*Chwefror*

19 Bugail

26 R W Jones

*Mawrth*

5 Oedfa Gŵyl Ddewi

12 Terry Edwards

19 Bugail

26 Oedfa'r ofalaeth – cyfarfod gollwng y Parchg Wyn Morris am 5.00

**Noddfa**

*Chwefror*

19 Cyfeillach am 10.00

26 Oedfa am 2.00 Gweinidog

*Mawrth*

5 Uno yn y Garn am 10.00

12 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Cymun.

19 Cyfeillach am 10.00

26 Oedfa am 2.00. Gweinidog

**Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd**

Dydd Gwener Mawrth 3ydd yn Noddfa am 2.00 o'r gloch

**Ysgol Sul Bow Street**

19 Chwefror Gwyliau Hanner Tymor

26 Chwefror Gwyliau Hanner Tymor

5 Mawrth Y Garn. Gwasanaeth Gŵyl Ddewi.

12 Y Garn

19 Y Garn

26 Y Garn

**Diolch**

Dymuna Jean ac Iwan Davies, Maes-y-garn, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu galar wedi i Jean golli ei brawd, Dai, yn annisgwyl, wythnos cyn y Nadolig. Hoffai'r ddau ddiolch hefyd i'r Parchedigion Richard Lewis ac Elwyn Pryse am gymryd rhan yn y gwasanaeth.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Matthew a Beti, Y Lôn Groes (a gynt o Matt's Deli) ar enedigaeth merch fach yn Ionawr – Martha, chwaer fach i Milo a Moli.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwynant a Lynn Phillips, Cae'r Odyn, ar enedigaeth wyres – Macy Alys, ym Mhenrhyn-coch; gorwyres i Maud Phillips, Tregerddan.

**Pen blwydd hapus**

Pen blwydd hapus iawn i Ffion Wyn Roberts, Garregwen, ar ddathlu ei phen blwydd yn ddeunaw oed ddechrau mis Mawrth. Daw'r cyfarchion oddi wrth Mam, Dad, Tomos a'r teulu i gyd.




**Te P'nawn**

Cynhelir Te Pnawn yng Nghapel y Garn rhwng 2 a 4 o'r gloch ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Trefnwyd er budd ffoaduriaid Syria, yn arbennig i helpu'r plant sy' angen blancedi cynnes a meddyginiaeth y gaeaf oer yma. Croeso cynnes i bawb. Byddwn yn dra ddiolchgar am eich cefnogaeth a phob chyfraniad at yr achos.

Bethan Jones a Shân Hayward

## Taith drwy'r iaith - casgliad o ymadroddion a diarhebion difyr, doniol, dychanol a difrïol o Fôn i Fynwy ac o Ben Llŷn i Bont-siân.

Mary Wiliam *Dawn Ymadrodd - Taith Drwy'r Iaith*. Gomer, 2016 £7.99 t.224

Fe ŵyr y to hŷn am Mary Wiliam ar gyfrif ei chyfnod yn gweithio i'r BBC. Mary Middleton oedd hi'r pryd hwnnw, ac fe'i gwelid yn nosweithiol yn holi ar y rhaglen boblogaidd *Heddiw*. Yn wir, cawsom gip arni'n ddiweddar, mewn clip du a gwyn ar S4C, yn jeifio gyda'r Hywel Gwynfryn ifanc mewn dawns yn Llanddewibrefi, yn rhinwedd ei swydd ar *Heddiw*. Fe gofia'r mwyaf diwylliedig yn ein plith iddi fod, hefyd, yn ymchwilydd ar staff yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan, yn gweithio dan gyfarwyddyd y diweddar Vincent Phillips ar dafodieithoedd Cymru. Pwy'n well, felly, i gyflwyno inni ddawn ymadroddi'r Cymry praff eu hiaith, dros ddegawdau niferus?

Cyhoeddwyd prototeip y gyfrol hon gan Mary Wiliam ym mis Mawrth 1978, ac mae diwyg y testun yn debyg, ond bod y gyfrol hon yn llawer hwy na'i rhagflaenydd (ddwywaith ei hyd ac ar bapur mwy) ac wedi ei diwygio drwodd a thro. Yn y gyfrol hon, mae'r pedwar pennawd ar bymtheg wedi eu trefnu dan dri phrif bennawd: 'Y dywediadau'; 'Tylwyth a chymdeithas'; a 'Byd gwaith ac arian'. Hwyrach y dylid sôn, cyn teithio ymhellach, am y clawr dychmygus sy'n darlunio'r ffordd sy'n dringo i fyny Bwlch Tal-y-llyn ym Meirionnydd. 'Taith drwy'r iaith' yw'r isteitl a dyna yw natur y gyfrol; gwib sydyn a ffraeth o un dywediad i'r llall, fel petai esbonio un dywediad yn atgoffa'r awdur o ddywediad tebyg, a bod hwnnw, yn ei dro, yn ei hatgoffa am ddywediad gwahanol mewn rhan arall o Gymru – taith yng ngwir ystyr y gair.

Y trueni mawr yw nad yw'r iaith yn ddigon cyhyrog bellach i greu'r fath gyfoeth o ddywediadau. Ystyriwch y dychan a'r doniolwch wrth ddisgrifio dyn diog fel 'masiwn ar y môr' (t. 163), neu alw 'diacon pren' ar flaenor di-werth mewn capel (t. 48), neu'r sylw fod bachgen wedi dewis cymar llai nag addas – 'Fe bigodd y ddraenen ymhlith y blode' (t. 103). Nodir dywediad o ardal Ffair-rhos: '"Bob un â'i ffansi," fel y gwedodd y ceffyl wrth gusanu'r mochyn'(t. 42). Tybiaf mai Tegla sy'n nodi dywediad tebyg yn un o'i lyfrau: "'Pawb at ei ffansi", fel y dywedodd y dyn wrth gusanu'r gaseg'.

Diau y bydd y gyfrol hon yn gyfrwng i brocio'r cof ac y bydd llawer ohonom, o'i darllen, yn cofio'r hyn a ddywedai ein tadau a'n teidiau. Yn ein teulu ni, er enghraifft, os byddai rhywun yn tagu ar fwyd neu ddiod, fe ddywedid bod yr ymborth 'wedi mynd i'r twll caws'. Croeso mawr felly i gyfrol werthfawr a defnyddiol. Beth am inni i gyd fynd ati i lunio dywediadau cyhyrog cyfoes? Beth am ddisgrifio rhywun busneslyd yn un 'gwell na Gwgl am wybod eich hanes chi'? Na, go brin.

**Dafydd Ifans**

Adolygiad oddi ar *www.gwales.com*, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

# PENRHYN-COCH

## Suliau Horeb

*Chwefror*
19 2.30 Kieran Owen
26 10.30 Tecwyn Jones

*Mawrth*
5 2.30 Y Parchg Peter Thomas
12 10.30 Y Parchg Peter Thomas
19 10.30 Clwb Sul – Horeb
2.30 Beti Griffiths
26 10.30 Clwb Sul – Ar y cyd yn Sant Ioan
10.30 Ymuno â Bethel, Aberystwyth – Yr Athro John Tudno Williams

## Croeso

Croeso i Benrhyn-coch i Mrs Margaret Hands sydd wedi symud o Bont-goch i 44 Glan Ceulan.

## Ennill jwg

Llongyfarchiadau Glenys Howells, Rhyd-y-gof, enillydd cwis *Barn*. Y wobr yw jwg serameg porslen o waith llaw Olwen Thomas, Pontargothi

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Mair Evans, Glan Ceulan, yn dilyn cael triniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

## Dyweddïo

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu dyweddiad a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Cemlyn Davies (Glan Ceulan gynt) a Ruth Mosalski yng Nghaerdydd

Lisa Humphreys, (Gelli gynt) gyda Miguel Torres ym Melbourne



**Ennill cadair**
Llongyfarchiadau i'r Parchg Judith Morris, Berwynfa, ar ennill cadair Eisteddfod Gadeiriol Cenarth dydd Sadwrn ddiwedd Ionawr. Roedd y beirniad, Y Parchg John Gwilym Jones, yn llawn canmoliaeth o waith 'Aderyn y to' ar y testun 'Gadael'.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Natasha a Martyn, Y Ddôl Fach, ar enedigaeth eu merch Macy Alys; wyres i Gwynant a Lynn Phillips, Bow Street a gorwyres i Maud Phillips, Tregerddan.

## Merched y Wawr

Ein gwraig wadd am Ionawr oedd Manon Reynolds, merch Wendy, un o'n haelodau sydd wedi mynd i fyd busnes yn gwerthu cynnyrch Aloe. Fe fu yn siarad a dangos sleidiau am y cwmni byd eang sydd yn cynhyrchu y nwyddau Aloe ac yna yn dangos i ni nifer o'r cynnyrch sydd ar werth gan adael i'r aelodau dreialu rhai ohonynt. Cafwyd noson hwyliog a dymunwn yn dda i Manon yn ei busnes.

Ein gwr gwadd am gyfarfod Chwefror oedd Owain Schiavone , un o Gyfarwyddwyr Cylchgrawn Golwg sydd a'i swyddfeydd yn Llanbedr Pont Steffan. Esboniodd ychydig o hanes Golwg ers y dechrau dros 25 mlynedd ar hugain yn ôl gan ddangos i ni rhai o'r newidiadau dros yr amser gyda Golwg 360 yn cael ei adio i'r we a chylchgrawn Lingo newydd ar gyfer y dysgwyr yn cael ei gynhyrchu. Cafwyd noson hwyliog iawn gan orffen gyda cwis yn seiliedig ar deitlau, lluniau a chamgymeriadau sgymraeg yn ôl-rhifynnau Golwg.

## Newid aelwyd

Dymuniadau gorau i Graham, Anwen, Olivia, Steffan a Sofie Gillies sydd wedi symud o Ger-y-llan i Golygfa. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd.

## Bore coffi MacMillan

Da clywed fod y Bore Coffi MacMillan a drefnwyd gan Elsie Morgan ym mis Ionawr wedi codi £400. Hoffai Elsie ddiolch yn fawr i bawb gefnogodd.

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cyhoeddwyd mai Llywyddion 2017 fydd – Nos Wener Mrs Morfudd Griffiths, Llangurig; prynhawn Sadwrn: Meleri Jones, Caerdydd sydd yn athrawes yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ger Maesteg a nos Sadwrn y Parch Lyn Lewis Dafis.

Ceir dwy gystadleuaeth newydd eleni – ar y nos Wener mae cystadleuaeth cyfyngedig i aelodau Academi Ger-y-lli sydd yn cyfarfod yn Neuadd y Penrhyn ac ar y nos Sadwrn ceir cystadleuaeth llafaru i ddysgwyr.

## Pen blwydd arbennig

Ym more coffi Eglwys Sant Ioan ar 7 Chwefror dymunwyd yn dda i Mrs Gabriel Starling, 4 Ger-y-llan oedd yn dathlu pen blwydd arbennig yn 90 ar 8 Chwefror.

## Pob hwyl John!

Llongyfarchiadau i John James, Pen-banc oedd yn un o'r pedwar cneifiwr o dramor ymhlith y chwech gyrhaeddodd ffeinal Cystadleuaeth Ryngwladol Ganolradd Southland – un o'r rhagrasau cyntaf i gael ei phenderfynu yn ystod dathlu Pencampwriaethau Cneifio a Thrin Gwlân y Byd yn 40 oed yn Invercargill, Ynys y De, Seland Newydd. Wrth i'r Tincer fynd i'r wasg mae John yn arwain y chwech sydd yn y Ffeinal cneifio gyda pheiriant (nos Wener) ac mae Jonny Rees o Aberhonddu



**Urdd y Gwragedd**
Noson yng nghwmni Anita Owen o Bant-y-crug – ond yn wreiddiol o ardal Machynlleth – oedd siaradwraig y mis. Rhoddodd fraslun o'i gyrfa ar ôl ymuno â'r heddlu yn Llundain am dri deg mlynedd, dechreuodd ar waelod yr ysgol fel cwnstabl yn un ar hugain oed yn 1977 yn Camden ac mewn amser cael dyrchafiad i fod yn rhingyll. Yn ardal Harrow cyn ymddeol nôl i Gymru. Dangosodd fedal a dderbyniodd am wasanaeth o ddwy flynedd ar hugain a medal a dderbyniodd gan y frenhines. Dywedodd iddi fwynhau yr holl brofiadau amrywiol yn ystod ei gyrfa. Diolchwyd iddi am rannu ei hanes gyda'r gwragedd.

– oedd uchaf yn y rhagras gyntaf yn bumed. Pob hwyl i John – dyma'r ystadegau o'r rhagrasys – John James (Cymru) 7mun 21.981eil, 29.349 pwynt, 1; Tom Brewer (Awstralia) 8mun 23.912eil, 31.946pwynt, 2; Brandon Maguire-Ratima (Seland Newydd) 8mun 31.756eil, 32.338pwynt, 3; Mitchell Murray (Seland Newydd) 7mun 3.612eil, 33.181pwynt, 4; Jonny Rees (Cymru) 8mun 6.871eil, 33.181pwynt, 5; George Olof (Lloegr) 7mun 42.429eil, 34.121pwynt, 6.

### Cymdeithas y Penrhyn

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2017 yng Nghapel Horeb, nos Fercher 18 Ionawr. Noson yng nghwmni Lyn Lewis Dafis, a gamodd i'r adwy yn dilyn salwch Gruffydd Antur.

Teitl ei sgwrs oedd "John Thomas a Selebs Cyntaf Cymru", a'r hyn a gawsom oedd hanes gwaith y ffotograffydd o Oes Fictoria – John Thomas.

Ganwyd ef yng Nghellan, Sir Aberteifi yn 1835. Ei swydd gyntaf oedd prentis i ddilledydd yn Llanbed. O 1853-63, bu'n gweithio mewn siop ddillad yn Lerpwl, ond oherwydd afiechyd, gorfodwyd ef i gael gwaith awyr agored, fel cynrychiolydd cwmni gwerthu papur ysgrifennu a ffotograffau.

Yn 1867, cychwynnodd ei fusnes ffotograffydd ei hun – The Cambrian Gallery, a newidiwyd yn ddiweddarach i'r 'Oriel Gymreig'.

Teithiodd ledled Cymru'n tynnu lluniau enwogion a chymeriadau, eglwysi a chapeli, cartrefi Cymru enwog a golygfeydd hynod. Gwerthodd bedwar mil o negatifs i Syr O. M. Edwards. Heddiw fe'u cedwir yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Ymhlith y 'selebs' yng nghasgliad John Thomas roedd gweinidogion – Samuel Roberts, Llanbrynmair, Islwyn, Thomas Charles, Hiraethog a Michael D. Jones. Prin yw'r merched yn y casgliad, ond mae tair 'seren' yn eu plith – Sara Edith Wynne – Eos Cymru, Margaret Jones – teithiwr 'Y Gymraes o Ganaan' a Sarah Jane Rees – Cranogwen. 'Selebs' go iawn! Bu farw John Thomas yn 1905 a chladdwyd ef yn Anfield.

Diolch i Lyn am noson ddiddorol a difyr tu hwnt!



### Heddwyn Morgan, Brynhyfryd

Un o blant y Penrhyn oedd Heddwyn wedi ei eni a'i fagu yn Brynhyfryd ac yr oedd yn dal i fyw yno efo'i deulu.

Roedd Heddwyn yn adnabyddus fel dreifiwr bws, wedi bod yn ymwneud â bysiau drwy ei oes Ei dad-cu a gychwynodd y busnes bysiau ym Mhenrhyn-coch, ac fel ei dad a'i ewythr, ar y bysiau fu Heddwyn. Erbyn hyn, wrth gwrs, Mid Wales y gelwir y busnes. Mae llawer o blant y Penrhyn yn ei gofio yn mynd a nhw i'r ysgol ar hyd y blynyddoedd. Roedd Heddwyn bob amser yn serchog ac yn barod ei gymwynas bob amser ac yn dynnwr coes i ryfeddu. Bu ei angladd ar y 30ain o Ionawr ac fe ffarweliwyd â Heddwyn mewn arch o siâp bws, ac yng nghwmni tyrfa o bobl efo'i gydweithwyr yn amlwg yno.

Yn ystod ei wasanaeth dan ofal y Parchg Richard Lewis, fe dalwyd teyrnged i'w thad gan Sheryl, drwy benillion oedd wedi eu cyfansoddi. A rhoddodd dipyn o hanes ei fywyd, hyd yn oed y drygioni fu'n ei wneud pan yn grwt ifanc. Cofion melys amdano. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teulu a'r cysylltiadau oll.

### Daniela

Fore Sul y gêm rygbi yn erbyn yr Eidal bu Dewi Llwyd yn siarad gyda dau a anwyd yng Nghymru gyda'u tadau yn dod o'r Eidal. Un o'r ddau oedd Daniela Antoniazzi o Aberystwyth - merch Bethan (Thomas gynt, y Felin). Daw tad Daniela o Bardi yng ngogledd yr Eidal ger Parma, a daeth efo'i rieni i fyw yng Nghymru pan yn 12 oed – yn y 50au hwyr. Soniodd Daniela fel y byddai un o'i hathrawon yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn arfer gofyn iddi adrodd enw llawn ei thad – Pier Antonio Luigi Gregorio Antoniazzi. Siaradai Daniela Eidaleg ac astudiodd yr iaith ym Mhrifysgol Birmingham. Mae hi a'i brawd a'i chwaer yn ymwelwyr cyson â'r Eidal.

Beth sy'n gwneud yr Eidal yn arbennig i Daniela? Yr Iaith, y tywydd, y diwylliant a'r bwyd - mae'n hoffi y traddodiad o eistedd i lawr am bryd o fwyd - dwyawr i ginio, a chyfle i gymdeithasu a dal i fyny efo pobol. Creda fod diddordeb mewn rygbi yn cynyddu oherwydd Cystadleuaeth y Chwe Gwlad – ond nid yw mor boblogaidd a phêl-droed yn y wlad. Mae hi wastad yn cefnogi Cymru mewn rygbi, a'r Eidal mewn pêl-droed ond efallai ers yr Euros fod yn rhaid iddi newid ei meddwl!

Ar ôl cyfnod yn gweithio efo Tinopolis yn Llanelli mae Daniela nawr yn gynhyrchydd efo'r BBC yng Nghaerdydd ac yn cynhyrchu deunydd digidol/ar-lein ar gyfer Bitesize – adnodd astudio rhad ac am ddim y BBC ar gyfer disgyblion ysgol ym Mhrydain. Mae wedi ei gynllunio i gynorthwyo disgyblion ysgol gyda'u gwaith ysgol ac ar gyfer myfyrwyr hŷn.



## Pêl-droed Penrhyn-coch

**Canlyniadau tîm cyntaf Rhagfyr a Ionawr yng Nghyngrair Huws Gray**

*Rhagfyr*

10 Penrhyn-coch 0 Caergybi 3
17 Penrhyn-coch 1 Treffynnon 1
27 Llanfair 0 Penrhyn-coch 2

*Ionawr*

7 Penrhyn-coch 1 Conwy 0
21 Penrhyn-coch 1 Caernarfon 1
28 Trefyclo 1 Penrhyn-coch 2

**Tîm Eilyddion Penrhyn-coch**

*Ionawr*

21 Eilyddion Prifysgol Aberystwyth 5 Penrhyn-coch 2
28 Bont 2 Penrhyn-coch 2

**Canlyniadau diweddaraf Tîm Menywod Penrhyn-coch**

*Chwefror*

5 Penrhyn-coch 3 Felin-fach 2

# Rhai atgofion Emlyn Rees, Bodowen am ‘waelod y pentre’ Bow Street

**Fe’u nodwyd mewn sgwrs gyda Vernon Jones, 28 Mehefin 2011.**

Gan gychwyn wrth bont Rhydhir, yn ystod y cyfnod cyn rhyfel 1914-1918, bu’r Fyddin Diriogaethol (*Territorials*) yn gwersylla ar y caeau a elwir yn “fflats Rhydhir”. Credodd rhai o fechgyn yr ardal mae da o beth oedd ymuno â nhw dros gyfnod, ond pan dorrodd y rhyfel allan, syfrdanwyd y bechgyn pan gawsant eu “galw i fyny” i’r fyddin, ac nid oedd gobaith dod yn rhydd. Tu hwnt i’r rheilffordd, lle mae gwaith carthffosiaeth Dŵr Cymru heddiw bu gwersyll mawr gan y fyddin a mynych fe glywyd seiniau band y fyddin yn canu, a bu’r milwyr yn chwarae pêl droed yn erbyn bechgyn Bow Street.



Loriau T. J. Hughes

Mae sôn bod un o fechgyn Bow Street, Griff Hughes, wedi disgleirio fel gôl geidwad, a bod rhai o’r uchel swyddogion wedi proffwydo dyfodol disglair iddo, ond aeth yntau i’r fyddin a dryswyd pob gobaith, er iddo chwarae yn ddiweddarach i dîm yn Ne Cymru pan oedd yn saer dan ddaear yn un o’r cymoedd. Cae Mari yw enw y cae nesaf ond un at Bow Street, ac fe gofia rhai ohonom am Goeden Mari ar fin y ffordd fawr.

Ar yr ochr ddwyreiniol i’r ffordd roedd caeau Gogerddan gyda 20 o goed hynafol wedi eu gwasgaru dros y tir. Yr hen ddywediad oedd, “pan syrth y coed, fe gwymp Gogerddan”. Ar ryw ystyr bu hyn yn wir. Heddiw gwelir yma leiniau arbrofi hadau adrannau amaethyddol IBERS yn Gogerddan. Yn ystod y pedwardegau a’r pumdegau o’r ganrif ddiwethaf gwelid gwartheg gosgeiddig duon Ruel Isaf gyda’r cyrnau mawr yn pori’r tir.

Wedi’r Rhyfel Byd Cyntaf, gyda’r bechgyn yn dychwelyd o’r fyddin, ac eraill o’r pyllau glo, ffurfiwyd tîm pêl-droed yn y pentre a enwyd y Robins. Cyn y Piod enwog! Cyflwynodd Sir Lewis Pryse Gogerddan weithredoedd Cae Mari i’r Clwb ac yno y buont yn chwarae am gyfnod. Ond darfu’r Clwb yn ystod blynyddoedd y dirwasgiad a dychwelwyd y gweithredoedd i Gogerddan. Yn un o ystafelloedd yr orsaf byddai’r bechgyn yn newid eu dillad i’w cit chwarae.

Perchennog Glen View - Wern Deg – heddiw oedd un, Mr Griffiths. Trigai yno ar ben ei hun, ond yn Llundain roedd ei wraig yn byw. Os nad oedd ganddo ddigon o arian i dalu am docyn i fynd ar y trên byddai’n gwystlo ei oriawr aur gyda’r orsaf feistr, sef tad-cu Emlyn, John Lewis Rees. Talai am gael yr oriawr yn ôl pan ddychwelai gydag arian oddi wrth ei wraig, mae’n siŵr! Dyma ichi enghraifft dda o wystlo gan Gwmni’r Great Western Railway!

Fel y gellid dychmygu, roedd Stesion “Bwstryd” (chwedl y brodorion) yn le prysur iawn gyda nifer o fân ddiwydiannau yn ffynnu yno, Yma roedd gwaith cerrig sef torri a naddu cerrig beddau gan David Davies, tad-cu Llinos Dafis, hefyd byddai un o deulu’r Harrands Capel Dewi yn trwsio esgidiau a Hughes y Glo (Evan Oliver Hughes) yn cyflogi nifer o weithwyr i ddosbarthu glo, ee Cwmni Charles a Mason Trefeurig i gario glo i ardaloedd gwledig Penrhyn-coch a Phen-bont Rhydybeddau. Byddai defnyddiau crai ar gyfer gwneud ffyrdd ac adeiladu yn cael eu storio yma, a darparai hyn waith i deulu T J Hughes (tad Meinir Lowry)


David Davies

a’i loriau i ddosbarthu cerrig a shipins dros y Cyngor Sir. Yn ddiweddarach parciwyd cerbydau (*coaches*) gan Gwmni’r Great Western Railway yn y seidins a deuai trigolion canolbarth Lloegr yma ar wyliau.

Cyflogai yr Orsaf cymaint â 13 o weithwyr ar un adeg. Gweithient mewn shifts, yn lanhawyr a bechgyn swyddfa. Yn 1927, tad-cu Emlyn oedd y gorsaf-feistr. Pan ail-gychwynnodd Clwb Pêl-droed Bow Street yn y tridegau, ar faes y stesion byddent yn ymarfer gydag un lamp yn goleuo’r libart a John Munson Roberts yn eu hyfforddi. Enghraifft gynnar o ymarfer dan oleuadau!

Awn i fyny’r pentref yn araf. Ar y dde yn Hafod trigai y plismon lleol Pascoe Davies. Tipyn o gymeriad o’r hen deip ac roedd iddo barchedig ofn gan bawb, ofn ei gerydd llym yn ogystal â blaen ei esgid! Ysgolfeistr wedi ymddeol oedd yr Henadur B T Williams, Hendre Gwyndir, a bu’n weithgar iawn yn y gymdeithas am nifer o flynyddoedd.

Ysgoldy yn perthyn i Gapel y

Garn sydd bellach yn dŷ yw Yr Hen Ysgoldy. Yma cyfarfyddai plant "gwaelod y pentre" i'w hysgol gân i ddysgu Sol-ffa ar nos Lun o dan ofal Dai Dafis sef David Davies y cerfiwr cerrig beddau. Ar nos Iau, noson debyg i ddysgu canu gyda Gwladys Rees. Canu rhywbeth tebyg i hyn:

"Plant bach y pentre ydym ni
Yn chwarae un dau tri,
A cerdded lan a lawr ar hyd y stryd..."

Yn ôl yr hen gymeriad Charlie Bailey a drigai ym Minyfron, roedd tafarn ar dir lle saif cartref Ambrose a Margaret Roberts, sef Awel y Werydd. Bow Street Court oedd ei henw, ac yno y cyfarfyddai'r llys barn lleol rhyw ddau gant a hanner o flynyddoedd yn ôl. Yn ddiweddarach symudwyd y dafarn i'r lle y mae hi heddiw a'i henwi yn Black Lion, erbyn hyn Y Welsh Black yw'r enw. Bu farw Charlie Bailey yn nechrau'r pumdegau o'r ganrif ddiwethaf, a'i gladdu ym mynwent Capel y Garn. Yn anffodus nid oes garreg i nodi ei fedd.

Tai pridd o eiddo Gogerddan oedd y tai gwreiddiol yma, a thebyg mai gweithwyr y plas fyddai'r tenantiaid.

Ar yr ochr orllewinol i'r ffordd, yn Manteg magwyd y Parchg Richard Davies, ficer Llanarth hyd at saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Ei fam oedd un a welodd y Capten llong hwnnw o'r Borth yn dianc liw nos ar ei geffyl ar ôl lladd ei chwaer yng nghyfraith Mary Davies yn 1894. Claddwyd hi ym mynwent Capel y Garn. Daliwyd y Capten mewn tafarn yng Nghastell-nedd, a chafodd ei grogi.

Drws nesaf yn Morlais, cadwai Kate Jones bopty yn crasu bara a buns i'w gwerthu i'r pentrefwyr. Wedi hynny daeth tad a mam Emlyn i fyw yma. Gogerddan oedd piau'r tai hyn eto. Yr Henadur David Rees Morgan, un o deulu Glanfread oedd yng ngofal y Black Lion am flynyddoedd, ei briod hefyd yn perthyn i hen deulu yn yr ardal, nifer ohonynt o gwmpas Bow Street yn y ganrif hon. Tu cefn roedd stablau i gadw 4 ceffyl, tra byddai'r perchnogion yn mynd ar y trên.

Cock and Hen Street oedd yr enw lleol ar y lôn fach tu rhwng y Black a Phantyberllan. Y tŷ isaf yw Glanrafon, lle y daeth Haydn Fleming adre o Sain Tathan ger Caerdydd, ar ddiwedd y rhyfel diwethaf i chwarae pêl-droed i Bow Street (a gweld ei wraig Eunice wrth gwrs!), gyda phennaeth yr RAF yn dilyn pob cam. Ond i'r drws nesaf yr aeth hwnnw i weld ei fodryb!

Roedd yna efail hefyd yn yr hen amser lle saif y tai eraill. Dau dŷ yn unig oedd yn y stryd tu cefn i Pantyberllan, a galwyd hon yn Thread and Needle Street! Yma y trigai "Mrs Chico" – ni wyddai neb ei henw iawn – y wyniadyddes. Yma hefyd oedd cartref Gwyn Edwards, gôl-geidwad abl iawn yn yr ardaloedd hyn yn y pumdegau. Ym Mhantyberllan y trigai teulu'r Thomosiaid, *saddlers* a'u gweithdy yn Iard Daniels yn Aberystwyth. Buont hefyd yn cario'r post yn ardaloedd Penrhyn-coch, a David Richard yn gweithio ar ddiwedd ei oes gyda'i frawd yng nghyfraith yn Davmor Garage, Tal-y-bont.


Cyn dyfod y rheilffordd roedd cae tu cefn i Islwyn yn ymestyn at Felin y Ruel (Glyn Rhosyn heddiw). Yn Bryn Teifi roedd siop Jack Hughes yn gwerthu nwyddau (groceries). Un arall o hen deulu'r pentref, brawd Griff Hughes, a Mrs Jones, Tyrabbi, a chyda'r hwyr byddai trigolion gwaelod y pentre yn galw i adrodd straeon a phenillion. Nododd T Gwynn Jones bod yna ddiwylliant arbennig yn perthyn i'r dosbarth gweithiol yn Bow Street.

Yn ôl eto, a gyferbyn â Islwyn mae dau dŷ sinc wedi eu hadnewyddu. Daethpwyd a rhain i fyny o Benfro ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf yr un pryd a'r Neuadd Rhydypennau wreiddiol sef y "Y M". Cabanau y fyddin oeddynt ym Mhenfro.

Yn Bodowen, cartref Emlyn heddiw, roedd Dic Jones yn byw. Dosbarthai'r post yn y bore a byddai'n mendio beics ac ati weddill y dydd yn y gegin! Ei frawd oedd Tommy Jones, Ivy Villa, Clarach a oedd yn enwog am ddal llwynogod yn yr ardal. Ar ddiwedd ei oes aeth i fyw at ei fab yn Cross Inn, Ceinewydd lle ddaeth yn fyw enwog byth am ddal llwynogod.

Ychydig yn uwch i fyny o Tŷ Cerrig roedd mynedfa i lwybr cyhoeddus a arweiniai gydag ochr y cael lle mae ystâd Tregerddan heddiw i lan drwy gaeau Brysgaga, gydag ochr Coed Gogerddan ac i lawr wedyn at Fron Castellan (Y Fron, Penrhyn-coch). Tebyg mai llwybr oedd hwn yn wreiddiol yn ymwneud â helfeydd Gogerddan. Wrth ymyl y fynedfa roedd pistyll dŵr gyda dau gafan, un i geffylau ddadsychedu, a'r llall i wragedd y pentre gael dŵr golchi.

**Vernon Jones**
Gorffennaf 4, 2011
(*I'w barhau*)


MEMORANDUM.
FROM . . .
DAVID DAVIES,
Monumental Works,
STATION YARD, BOW STREET, S.O.
Cardiganshire.
Manufacturer of Granite, Marble, Slate and Stone Memorials.
Private Address: "The Elms," Bow Street, S.O.
.......192
To . . .
M.......

Papur swyddogol David Davies

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
hedyddcunningham@live.co.uk

# Pared Gŵyl Ddewi Aberystwyth

Bellach cyhoeddwyd taw Glan Davies, y comedïwr, yr actor, yr arweinydd noson lawen a chyngerdd, a'r codwr arian o fri fydd Tywysydd Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth eleni.

Crwt o Frynaman yw Glan, ond bu'n byw yn Aberystwyth am flynyddoedd cyn 'ymddeol' i Lanfarian. Ond mae'n adnabyddus i bawb drwy'r ardal, ac yn aml i'w weld ar dudalennau'r papurau lleol yn sgîl ei waith clodwiw i godi arian i Galonnau Cymru.

Fel arfer bydd Parêd eleni, a gynhelir ar ddydd Sadwrn 4 o Fawrth yn llawn lliw a bwrlwm. Geraint Roberts fydd y pibydd i, a bydd Band Arian y Dre, Côr Meibion Aberystwyth ynghyd a chorau eraill, a Band Samba Aberystwyth i gyd yn ymlwybro ar hyd y strydoedd yn un dyrfa lawen swnllyd.

Am 1 o'r gloch bydd y parêd ei hun yn cychwyn o gloc y dre, ond bydd yna weithgareddau o'r bore bach yn y Bandstand wedi eu trefnu gan Cered yn arbennig i blant/pobl ifanc a theuluoedd ac yn amrywio o berfformiadau roc i weithdai creu masgiau, canu'r ukulele, creu offerynnau a chlocsio! A bydd Siop y Pethe yn fwrlwm hefyd gyda sesiynau storïau a sgwrs gyda'r awdur Mihangel Morgan.

Bydd yna berfformiadau yn y bore yn Sgwâr Owain Glyndŵr, ac yna ar ôl y Parêd bydd yna sesiwn werin yn y Llew Du. Ac ar y Sul ym Morlan bydd gwasanaeth i ddathlu ein nawddsant.

Edrychwch mas am y posteri, dewch i gyd-gerdded gyda'ch baneri, a'ch gwisgoedd Cymreig, a'ch capiau stabl – neu unrhyw beth coch.

Dyma ein dydd cenedlaethol. Cyd-ddathlu yw ein braint a'n dyletswydd.

Mwy o fanylion ar Weplyfr ParedGwylDewiAberystwyth neu'r wefan www.gwyldewiaber.cymru



## TREFEURIG





Diolch i Rhydian Mason am gael cyhoeddi y lluniau yma; llun o ddoe a'r un fan heddiw. Tybed lle oedd y teithwyr yma yn mynd? Bellach nid yw trafnidiaeth gyhoeddus yn cyrraedd y pentref Pen-bont Rhydybeddau.

## Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion 2017

Bethel, Tal-y-bont

**Dydd Sul 14 Mai 2017**

am 10.00 a 5.30 o'r gloch

Arweinydd: Alwyn Evans

Trefn y rihyrsals nosweithiau Mercher

**5 Ebrill** Capel y Morfa am 7.00

**12 Ebrill** Capel y Garn, Bow Street am 7.00

**26 Ebrill** Bethel, Aberystwyth am 7.00

**3 Mai** Seion, Stryd y Popty am 6.30

**10 Mai** Bethel, Tal-y-bont am 7.00

**y tincer** ytincer@googlemail.com

# Taith Hen Geir HEDD WYN – Ypres, Gwlad Belg

Ym mis Gorffennaf 2017, bydd tua 20 car yn teithio o Abertawe i Ypres fel rhan o ddigwyddiadau i goffáu canmlwyddiant brwydr Passchendaele ac yn enwedig marwolaeth Hedd Wyn. Dyma gyfle ichi i ymuno ar y daith.

Yn dilyn llwyddiant ysgubol taith hen geir Abertawe i Mametz yn 2016, mae'r trefnydd wedi penderfynu trefnu taith debyg eleni i Ypres, yng Ngwlad Belg i goffàu canmlwyddiant marwolaeth Hedd Wyn. Dim ond lle i 20 car sydd ar y daith ac mae croeso i ddarllenwyr Y Tincer gofrestru arni.

Trefnir y daith gan Huw Morris, sy'n gweithio ym Mhrifysgol Abertawe a dywed bod 10 car wedi cofrestru yn barod. Felly os oes gennych hen gar a diddordeb mewn "sbin" fach i Wlad Belg, cysylltwch ag e cyn gynted ag y bo modd trwy ddanfon e-bost yn datgan eich diddordeb at landeg@ntlworld.com.

Bydd y daith yn digwydd rhwng y 27-31ain o Orffennaf 2017, gan adael y Mwmbwls, Abertawe am 10 o'r gloch y bore ar y 27ain. Byddwn yn cyrraedd Ypres, gobeithio!, erbyn swper ar yr 28ain ac yna yn mynychu gwasanaeth i'w gynnal wrth gofeb Hedd Wyn a digwyddiadau eraill yn gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf.

**Hedd Wyn**

Ganwyd Ellis Humphrey Evans yn Nhrawsfynydd, Sir Feirnionnydd, a mabwysiadodd y ffug-enw Hedd Wyn. Fe'i cadeiriwyd mewn nifer o eisteddfodau lleol a chyflwynodd gerdd, gan ei ddanfon at yr Eisteddfod o faes y gad, ar gyfer cystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Penbedw (Birkenhead) yn 1917. Ychydig o wythnosau cyn seremoni cadeirio bardd buddugol yn yr Eisteddfod, lladdwyd Hedd Wyn ym mrwydr Passchendaele. Hedd Wyn oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth. Yn seremoni cadeirio'r bardd buddugol, cafodd y Gadair ei gorchuddio gan frethyn du – "Seremoni'r Gadair Ddu".

**Y Daith**

Dyma fanylion y daith

| | |
|---|---|
| 27/07/2017 | Gadael Abertawe am 10 y bore - teithio i Newhaven gan (hwylio am 00.30 y bore ar 28/7/17) |
| 28/07/2017 | Teithio o Dieppe i'r gwesty, drwy Ffrainc a Gwlad Belg. |
| 29/07/2017 | Ymweld â llefydd hanesyddol. Cyngerdd hwyrol yn eglwys Langemark. |
| 30/07/2017 | Gwasanaeth Coffa Hedd Wyn |
| 31/07/2017 | Ymweld â llefydd hanesyddol (Rhyfel Byd Cyntaf) neu Dunkirk ar y ffordd nôl i Dieppe – hwylio am nôl 6.00pm |

**Llety**

Bydd y teithwyr yn aros mewn gwesty sy'n agos at Ypres. Bydd y gost, tua £499 am ddau berson, yn cynnwys:

- Y fordaith o Newhaven i Dieppe a'r daith o Dieppe i Newhaven
- Tair noson, gwely a brecwast, mewn gwesty 3* yn agos at Ypres
- Bwrdd rali swyddogol

**Manylion cyswllt**

Ymholiadau i'w cyflwyno at Huw Landeg Morris drwy e-bost: landeg@ntlworld.com



Ceir ar daith y llynedd




Maer Abertawe ar ddechrau taith 2015

# Eira!

Mae siarad am y tywydd yn ail natur i ni, ac yn fodd i gynnal sgwrs pan nad oes llawer arall i'w ddweud. A phetai'n bwrw eira, mae hynny'n destun siarad gan bawb!

Ond faint o eiriau sydd i ddisgrifio eira yn benodol? Mae yna ystôr ohonynt yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, a rhai ohonynt yn hen iawn. Er enghraifft sonnir am **friwod,** sef eira mân a yrrir gan y gwynt, a **chynneiry**, sef eira cyntaf, tua'r flwyddyn 1400 yn Llyfr Coch Hergest. Mae'r bardd Iolo Goch yn cyfeirio at liw **nyf,** sef lliw eira, yn y 14eg. ganrif, a Dafydd ap Gwilym yn sôn am ôd (eira), gair sydd ar lafar o hyd mewn rhai ardaloedd yn y ferf **odi** (bwrw eira).

Ar ddiwrnod **eiriog** (llawn o eira), efallai mai **ffluwch** (haen denau), **ffrechen** (cawod ysgafn), neu **sgimpen** (haen denau) a gwymp, neu daw **eirwynt** a **lluwch** neu **luchfa** o **fanod** (mân ôd, eira mân) i'n cadw i ffwrdd o'r lonydd ac o'r gwaith. Ac wrth gwrs mewn ychydig o ddiwrnodau, bydd y **gwynneiry** (eira gwyn) neu'r **hiffiant** (eira wedi ei yrru gan y gwynt) wedi troi yn **isgell** neu **botes eira** (eira tawdd) hyll a budr.

A wyddoch chi am unrhyw hen eiriau lleol neu anghyffredin i ddisgrifio'r eira (neu unrhyw dywydd arall)? Chwiliwch amdanynt yn GPC ar lein (ac am ddim), http://gpc.cymru. Ac os nad ydynt yno, byddwch mor garedig â chysylltu â ni ar gpc@geiriadur.ac.uk neu Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH. Rydym yn edrych ymlaen at glywed oddi wrthoch!

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# Jac yn y Bocs

Emyr Edwards *Jac yn y bocs a dramâu byrion eraill.* Cyhoeddwyd gan yr awdur £7.00

Jac yn y bocs – dyna deitl casgliad o ddramâu byrion a gyhoeddwyd ddiwedd mis Rhagfyr diwethaf gan Emyr Edwards. Gwahoddwyd Bob Roberts, Cadeirydd Cwmni Drama Eglwys y Crwys, Caerdydd, i fwrw golwg dros y gyfrol.


Y gŵyn fwyaf y mae dyn yn ei chlywed gan gwmnïau drama amatur y dyddiau yma yw'r diffyg yn y nifer o ddramâu, hir a byr, sydd ar gael iddynt eu llwyfannu. Mwy na pheidio maent yn dibynnu ar gyfieithiadau neu addasiadau o ddramâu mewn ieithoedd eraill. Rwy'n siwr bod hyn yn rhannol gyfrifol am y dirywiad yn y nifer o gwmnïau drama amatur sydd yn bodoli yma yng Nghymru a hynny, wedyn, yn cael ei adlewyrchu yn y nifer o wyliau drama sydd yn cael eu cynnal.

Mae lle i ddiolch, felly, am gynnyrch cyson y dramodydd o Gaerdydd, Emyr Edwards. Mae'n awdur toreithiog, wedi cyhoeddi sawl drama, ynghyd â llyfrau ar gynhyrchu a llwyfannu dramâu. Mae hefyd wedi dod yn fuddugol yn eisteddfodau cenedlaethol Tyddewi, Casnewydd a Chaerdydd. Mae hefyd wedi ysgrifennu nifer o sioeau cerdd ac ef oedd sylfaenydd a chyfarwyddwr Cwmni Theatr yr Urdd rhwng 1973 a 1988.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae Emyr wedi cyhoeddi sawl cyfrol o ddramâu byrion, megis *Y Fodrwy*, *Adolff* a *Lloeren*, cyfanswm o ddwy ar bymtheg o ddramâu ar gyfer cwmnïau amatur, colegau ac ysgolion.

A nawr dyma gyfrol arall o'i waith, sef *Jac yn y Bocs* a phedair o ddramâu byrion eraill – dramâu gyda deialog sy'n rhedeg yn llyfn ac yn hawdd iawn i'w llwyfannu; delfrydol i gwmnïau amatur.

Mae *Jac yn y Bocs* yn cynnwys elfen o ddychan wrth ymdrîn â sefyllfa o banig ymysg llywodraethau lleol ac awdurdodau swyddogol eraill. Er bod pedwar ar ddeg o gymeriadau ynddi hawdd iawn fyddai dyblu i fyny ar actorion ac, fel mae'r teitl yn ei awgrymu, dim ond bocs sydd ei angen ar y llwyfan! Yn yr ail ddrama, *Colli Gafael*, mae yna ymdriniaeth sensitif iawn â sut y mae'r clefyd dementia yn gallu effeithio'n wrthdrawiadol ar berthnasau – sefyllfa y mae sawl un ohonom, rwy;n siwr, yn ymwybodol ohoni. Drama yw hon wedi ei hanelu, mi dybiwn, at actorion mwy profiadol.




Mae'r drydedd ddrama, *Uffern*, wedi ei hanelu atoch chi y bobl dechnegol. Mae'n sôn fel y mae'r dechnoleg fodern, megis yr i-ffôn, yn rhwystro cyfathrebu ymhlith pobl. Rwy'n siwr y bydd y deialog *staccato* sydd yma yn taro deuddeg gyda sawl un ohonoch. Dyma ddrama arall hawdd i'w llwyfannu gan mai dim ond bwrdd a thair cadair sydd eu hangen ar y llwyfan.

Darlun yw'r ddrama *O'r Dom i'r Llaid* o'r modd y twyllir caethweision i gyffesu. Mae'r ddrama wedi ei lleoli mewn carchar gyda phedwar cymeriad iddi – tri gŵr a gwraig, sef caethwas, caethferch, swyddog carchar a milwr. Y ddrama olaf yn y gyfrol yw *Bwlis,* sy'n ymdrîn â sut y gall addysg ddylanwadu'n negyddol, ac yn drasig, ar syniadau a gweithgareddau'r ifanc. Fe'i lleolwyd mewn ysgol ac, o reidrwydd, cast ifanc sydd iddi ar wahân i athro a phrifathro, naw o actorion mewn nifer.

Dyma gyfrol o ddramau byrion sydd yn cyfleu sefyllfaoedd cyfoes a chyffrous, ac wedi ei hanelu, yng ngeiriau'r awdur "at gwmnïau drama amatur, ysgolion a cholegau". Mae'n gyfrol sy'n wirioneddol yn llenwi bwlch yn llenyddiaeth Cymru. Diolch Emyr.

Os nad yw y gyfrol yma ar werth yn eich siop lyfrau leol gellir ei harchebu yn uniongyrchol oddi wrth yr awdur naill ar y ffôn: 02920 565122; ar e-bost: edwards-catherine@sky.com neu drwy ysgrifennu ato yn 9, Petherton Mews, Llantrisant Road, Llandaf, Caerdydd, CF5 2SJ.

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán

01970 820149
07980 687475

# Llaeth yn Llundain

Prin yw teuluoedd sefydledig y Sir hynny sydd heb ryw fath o gofnod o aelodau oedd yn ymwneud â'r diwydiant llaeth yn Llundain yn ystod y ddeunawfed a'r ugeinfed ganrif.

Yr hanes o gyfnod oes y porthmyn hyd at heddiw oedd testun y ddau lyfr, *Llwybr Llaethog Llundain* a'r *London Milk Trail* a gyhoeddwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Seiliwyd y gwaith ar gyfraniadau'r cyhoedd ac mae'r ddau lyfr wedi tyfu erbyn hyn i fod yn adroddiadau diffiniol.

Serch hynny, mae'n amlwg bod mwy o ddeunydd i'w 'achub' a theimlaf ei fod yn bwysig recordio cymaint ag sy'n bosibl cyn i bethau fynd yn angof. Mae cyhoeddiad newydd – dwyieithog o bosib – ar y gweill er mwyn sicrhau hanes mor gyflawn â phosib fydd yn seiliedig ar adroddiant byw yn hytrach nag ar ystadegau archifol.

Apêl yw hon i unrhyw ddarllenydd sydd â deunydd – boed hwnnw ar bapur, yn llafar neu'n ddarluniadol – ac nad oedd wedi gallu ymateb i geisiadau blaenorol, i gysylltu â mi, Megan Hayes, ar: megan.hayes10@gmail.com neu 01545 570545. Cydnabyddir pob cyfraniad os caiff ei ddefnyddio yn y cyhoeddiad.

**Megan Hayes**

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

# Mapiau Degwm i bawb

Dewch i weld hen fapiau gogoneddus o'r ardal ar y We. Cafodd yr ardal hon, fel bron pob ardal yng Nghymru, ei mapio yn fanwl yn ystod yr 1840au ar gyfer casglu'r degwm.

Mae'r mapiau yma i gyd, dros 1,200 ohonynt, wedi eu digido yn y Llyfrgell Genedlaethol ac maent arlein ar wefan cynefin.cymru. Croeso i unrhyw un fynd ar y wefan yma i edrych arnynt, a chymharu'r hyn a fu gyda beth sydd yma heddiw. Os edrychwch yn fanwl fe welwch reilffyrdd, camlesi, tollbyrth a gweithfeydd mwyngloddio cynnar. Mae tlotai a phlastai ar draws y wlad, a gallwch ddod i hyd i ffermydd mewn mannau anghysbell, a thiroedd amaethyddol sydd bellach wedi eu llyncu gan drefi a dinasoedd - a chronfeydd dŵr.

Mae prosiect Cynefin hefyd wedi digido dogfennau'r degwm sy'n mynd gyda'r mapiau. Mae'r rhain yn enwi pwy oedd yn talu'r degwm, a phwy oedd perchnogion y tir, gwybodaeth ddiddorol iawn i haneswyr teulu.

Gan amlaf mae'r wybodaeth wedi ei rhoi fesul cae, ac mae hefyd yn cynnwys enwau'r caeau a'r defnydd tir. Mae'r dogfennau a'r mapiau yma yn cael eu trawsgrifio gan wirfoddolwyr er mwyn ei gwneud yn bosib i bawb allu eu harchwilio yn hwylus yn y dyfodol, ac mae dros fil o bobl yn rhan o'r prosiect eisoes. Er hynny, mae digon o waith ar ôl, os hoffech chi ymuno gallwch wneud hynny yn rhwydd ar wefan cynefin.cymru, neu trwy anfon ebost at cynefin@llgc.org.uk



Map o ardal Rhydypennau

# Pwy yw bardd gorau'r ardal?

Ar Fai 3ydd eleni cynhelir Eisteddfod Calan Mai Morlan Aberystwyth. Hon fydd pumed pen-blwydd yr eisteddfod newydd anedig, ac i ddathlu hynny bydd hon am y tro cyntaf yn Eisteddfod **Gadeiriol!** "Llanw" yw testun y gystadleuaeth gerdd gaeth neu rydd a gwobrwyir y buddugol â chadair fechan o waith Wyn Morgan a £20. Eisteddfod leol wrth gwrs yw'r eisteddfod hon, yn gyfyngedig i ddalgylch Penweddig, ond yn sicr mae yn yr ardal nythed o feirdd a gobaith y pwyllgor trefnu yw y byddant yn ymateb i'r sialens.

Wrth gwrs mae mwy i eisteddfod na chadair! Fe gynigir tlws llenyddiaeth eleni, a hynny hefyd am y tro cyntaf, gan ofyn am hyd at 3,000 o eiriau ar y thema "Atgof."

Ac mae mwy i eisteddfod na llenydda – yn ôl yr arfer mae yna ystod o gystadlaethau gwaith cartref, gan gynnwys ffotograffiaeth a chelf, a llu o gystadlaethau llwyfan, o'r difrif i'r digri. A bydd *chopsticks* yn cael lle ar lwyfan steddfod Morlan eleni! Am fanylion llawn codwch gopi o'r rhaglen o Siop Inc neu Siop y Pethe neu ewch i'r wefan www.steddfota.org.

Ebrill 25 yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn gwaith cartref – felly digon o amser i'r awen alw heibio i bentrefi gogledd Ceredigion.

# Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

## 30 Mawrth – 1 Ebrill 2017

Dyma destunau llên a chartref yr Eisteddfod; y beirniad yw'r prifardd Dafydd Pritchard, Aberystwyth, (1-9) a Huw Foulkes, Caerdydd (10) a dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post i'r Ysgrifennydd
**Ceris Gruffudd**,
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail,
Penrhyn-coch, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 3HE neu ebost i Ceris.Gruffudd@gmail.com cyn
**13 Mawrth**.

1. **Y Gadair** – Cerdd gaeth neu rydd hyd at 50 llinell ar y testun - Gorwelion. Cadair fach a £50.00

   Y gadair a'r arian yn rhoddedig er cof am y diweddar Elwyn a Hilda Mason, New Inn, Cwmerfin gan David a Mair Mason a Margaret Mason Pollak a Henry Pollak.

2. **Telyneg** – Glaw £10.00
3. **Llunio Brawddeg o'r gair** - CNEIFIO £10.00
4. **Englyn** – Hedd Wyn £10.00
5. **Soned** – Deffro £10.00
6. **Stori fer ar y thema** – Chwerthin £10.00
7. **Erthygl neu gyfres o bytiau diddorol addas i'w cyhoeddi mewn papur bro** £10.00
8. **Adolygiad o unrhyw nofel Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2016** £10.00
9. **Limrig yn cynnwys y llinell** – Eleni, rwy'n gwneud un adduned £10.00
   **HEFYD TESTUN CERDDOROL**

10. **Tlws yr Ifanc** – dan 21 oed Tlws a £20.00

Cyfansoddi darn cerddorol – lleisiol neu offerynnol.
Y gwobrau yn rhoddedig gan **Aaron ac Ashley Stephens**, Glan Seilo.
Beirniad rhif 10:
Huw Foulkes,
Caerdydd

Gwobrwyir enillydd Tlws yr Ifanc ar y nos Wener.

# Y Glec, cynhyrchiad diweddaraf Cwmni Theatr Arad Goch





Fersiwn newydd gan Arad Goch o'r ddrama drawiadol gan gwmni Zeal Theatre o Awstralia – cwmni sy'n cael ei adnabod yn rhyngwladol am ei ddramâu dwys o safon uchel – sydd yn archwilio y broblem o or-yfed alcohol a thrais ymysg bobl ifanc. Mae *Y Glec* yn cadw at arddull arferol Zeal; drama llawn egni a hiwmor lle welwn Rhodri Sion a Owain Llŷr Edwards yn chwarae llu o wahanol gymeriadau mewn parti pen-blwydd. Mae'r gerddoriaeth yn uchel a phawb yn cael amser da, ond pan mae'r rhieni yn gadael, mae pethau'n newid...

Mae drama ddiweddaraf Arad Goch, sydd eisoes wedi cael ei disgrifio gan Lowri Haf Cooke fel "Y cynhyrchiad mwyaf egnïol i mi'i weld ers tro byd", yn teithio ledled Cymru ym mis Mawrth. Fe fydd y daith yn cychwyn yng Nghanolfan Arad Goch, Aberystwyth ar y 7fed o Fawrth gyda pherfformiad yn y Gymraeg am 19:30. Fe fydd perfformiad yn y Saesneg am 19:30 y noson wedyn, sef yr 8fed o Fawrth. Fe deithiodd y ddrama i ysgolion uwchradd Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro cyn y Nadolig gan dderbyn llu o sylwadau ac ymatebion arbennig;

"Drama afaelgar, emosiynol ac roedd safon perfformiad yr actorion yn wych" – Athro, Ysgol y Strade.

Wedi'i seilio mewn parti pen-blwydd, mae *Y Glec* yn adrodd stori dau fachgen sydd yn herio ei gilydd. Mae rhywbeth sydd yn cychwyn fel bach o sbort yn sydyn yn troi mewn i ryfel gwaedlyd wedi ei thanio gan alcohol.

Mae gan Cwmni Theatr Arad Goch berthynas dda iawn gyda chwmni Zeal Theatre erbyn hyn, ar ôl dros 16eg o flynyddoedd o gydweithio a rhannu syniadau. *Tafliad Carreg* oedd y tro diwethaf i'r ddau gwmni weithio ar gynhyrchiad gyda'u gilydd, sef fersiwn Arad Goch o'r ddrama enwog *Stones* gan gwmni Zeal.

"Rydyn ni'n falch iawn i gydweithio unwaith eto â Zeal Theatre, un o gwmnïau theatr mwyaf llewyrchus yn y byd yn ein maes ni a bellach yn hen ffrind i Arad Goch."

Dywedodd Jeremy Turner, Cyfarwyddwr Creadigol Cwmni Theatr Arad Goch.

"Fe gwrddais a Zeal Theatre yng ngwyl Theatr ASSITEJ theatr yn Norwy, a rydyn ni wedi cadw mewn cysylltiad â nhw ers hynny. Mae eu gwaith nhw'n heriol a chyfoes. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn y ffaith bod cydbwyllgor addysg Cymru wedi cyhoeddi un o'i sgriptiau, a gynhyrchwyd gan Arad Goch yn y gorffennol, sef *Tafliad Carreg*. Mae eu gwaith i'w weld mewn dros 20 o wledydd ar draws y byd."

Ym mis Medi, 2016, fe gychwynnodd ymarferion Y Glec/King Hit ac fe wnaeth Tom Lycos o gwmni Zeal ddod o Awstralia i Aberystwyth i gyfarwyddo. Rhodri Sion, sydd yn gwneud ei ymddangosiad cyntaf mewn cynhyrchiad Arad Goch, sydd yn perfformio gydag Owain Llŷr Edwards yn y sioe hynod o gorfforol yma. Yn ogystal a pherfformio yn y ddrama, Owain Llŷr Edwards oedd hefyd yn gyfrifol am gyfieithu ac addasu'r ddrama i'r Gymraeg.



**Lluniau: Keith Morris**



# Colofn Enwau Lleoedd

**Cyffiniau Gogerddan**
Mae llawer o bryder wedi ei fynegi dros y blynyddoedd diwethaf ynghylch y bygythiad i enwau lleoedd oherwydd y duedd gynyddol i newid enwau. Mewn gwirionedd, dylem fod yr un mor bryderus am yr enwau sy'n diflannu o gof gwlad wrth i ni golli nabod ar ein cynefin.

Cymerwch er enghraifft yr enwau hyn yng nghyffiniau Gogerddan:

Faint ohonom bellach sy'n arddel yr enw *Troead Tŷ-coch* am y gyffordd lle mae'r lôn o Gogerddan yn ymuno â'r briffordd rhwng Bow Street ag Aberystwyth? Tebyg bod llai byth ohonom yn cofio'r tŷ brics a arferai sefyll yno, ac a roddodd i'r troead ei enw.



*Tŷ-coch (llun o gasgliad Agnes Morgan ar wefan Trefeurig: www.trefeurig.org/oriel-agnesmorgan.php)*

Pwy wedyn sy'n gyfarwydd â'r enw *Rhiw Celyn* am y ffordd sy'n codi i gyfeiriad Capel Dewi o groesffordd Gogerddan? Digwydd un o'r ychydig gofnodion ysgrifenedig ohono mewn erthygl gan R. Gwmryn Jones yn *Cymru* 1896 (cyf. xi. t. [283]). Fe sylwch bod celynen neu ddwy yn parhau i dyfu ar fin y ffordd gan dystio i darddiad yr enw.

Mewn llythyr yn rhifyn Tachwedd 2007 *Y Tincer* (t. 16), cyfeiriodd Erwyd Howells at *Riw Drws Coch* rhwng cylchdro Gelli Angharad a fferm Lovesgrove, rhiw a enwyd ar ôl drws coch yn y wal sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r ffordd. Mae'r paent coch wedi hen ddiflannu, ac mae'n resyn meddwl nad yw'r enw'n cael ei ddefnyddio gan lawer mwyach.

Soniais innau yn y golofn hon am *Dŷ Jerri Bach Gogerddan* (Chwefror 2014) ar *Riw Siôn Saer* (Hydref 2013). Does syndod i'r enw Tŷ Jerri Bach Gogerddan ddiflannu gan iddo gael ei ddymchwel er mwyn lledu'r ffordd, ond mae'n drueni mawr bod cyn lleied yn gyfarwydd â'r enw *Rhiw Siôn Saer* a'i leoliad ar y briffordd y tu cefn i bentref Comins-coch.

Enw arall gwerth tynnu sylw ato ar nodyn mwy calonogol yw *Cae Rasys*. Dyma'r cae gwastad sydd wedi ei leoli i'r gogledd-orllewin o groesffordd Gogerddan lle byddai teulu'r plas yn arfer cynnal rasys ceffylau. Rwy'n hynod o falch bod yr enw'n parhau i gael ei ddefnyddio heddiw gan staff fferm Gogerddan.



*Cwrs rasio Gogerddan ar y Map Degwm oddi ar wefan cynefin.cymru*

Felly defnyddiwch yr enwau hyn, neu mi ddiflannan nhw!

**Angharad Fychan**

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD**

**www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**

# MADOG, CAPEL DEWI A CEFN-LLWYD

## Suliau Madog

**2.00**
19 Bugail
26 R W Jones

*Mawrth*
5 Oedfa Gŵyl Ddewi – Garn
12 Terry Edwards
19 Bugail
26 Oedfa'r Ofalaeth – Garn

## Eira mawr 1947

Pan drafodwyd eira mawr 1947 ar Bore Cothi ddiwedd Ionawr clywyd fod Valmai wedi ffonio o Market Drayton i roi ei hatgofion hi o fod wedi ei chloi yn y tŷ am wythnosau yng Nghapel Madog oherwydd yr eira. Roedd Valmai yn priodi ym mis Mai pryd roedd tamaid o eira yn dal ar y llawr. Tybed oes rhywun yn cofio Valmai yn yr ardal?

## Ymddeoliad hapus

Dymunwn ymddeoliad hapus i Dilwyn Thomas, Brynheulog, ôl gwasanaeth hir ar ffermydd IGER ac IBERS.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Iona Davies, Llaingwyddil, ar golli cefnder o Benrhyn-coch;
hefyd, â Patrick Sims-Williams ar golli perthynas o Ddinas Cross, Sir Benfro.

# GOGINAN

## Gwellhad Buan

Danfonwn ein dymuniadau gorau i Amber Humphreys, Blaendyffryn ar ei anlwc o fod mewn damwain car yn ddiweddar lle torrodd ei bigwrn.

i Elfed Price, Troedrhiwcastell, ar ôl ei driniaeth diweddar yn Ysbyty Bron-glais.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Maureen Perkins a'r teulu oll, Ardwyn, ar farwolaeth Alan, gŵr, tad a tad-cu annwyl ar Ionawr 25. Fe fu ei angladd ar Chwefror y cyntaf yn Amlosgfa Aberystwyth.

## Newid Aelwyd

Pob lwc i Steve, Sian Donnelly a'r teulu yn eu cartref newydd yn Llanbadarn wrth iddynt symud o'r Tŷ Capel, Y Dyffryn.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

Ymddiheuriadau i'n gohebydd yn yr ardal – drwy amryfusedd ni chynhwyswyd newyddion a gyrhaeddodd ddechrau Ionawr.

### Amser prysur

Eleni eto bu y penwythnos cyn y Nadolig yn brysur iawn yn yr ardal . Cynhaliwyd y parti blynyddol ar y nos Sadwrn pryd y daeth nifer dda o bobl a phlant ynghyd. Daeth Siôn Corn heibio ag anrheg i bob plentyn a diolch o galon i Steve Briggs am ei waith da eleni eto. Difyrrwyd y plant hefyd gan John Alderhouse, Tancnwch, ac mi 'roedd pawb wrh eu bodd yn ei wylio yn gwneud triciau. Diolch i bawb am y gwobrau raffl a diolch yn arbennig i Lorraine Maloney a John a Carol Marshall am baratoi y Neuadd ar gyfer y noson. Nos Lun aeth Beti, John, Carol a Lorraine o amgylch Cwmrheidol i ganu carolau a mi wnaeth Elen Howells drefnu parti o blant i fynd o amgylch Aber-ffrwd. Llwyddwyd i godi £300.00 a fydd yn cael ei drosglwyddo i Glwb ar ôl ysgol Ysgol Pen-llwyn. Diolch i bawb am y croeso ac am y rhoddion hael.

### Noragh Jones

Rhai dyddiau ar ôl y Nadolig daeth y newydd trist am farwolaeth sydyn iawn Noragh Jones, Troedrhiwsebon gynt. Ar ôl treulio rhyw ddwy flynedd yn byw yn Aberystwyth ac ar ôl colli Ken daeth Noragh yn ôl i fyw i Caehaidd ers mis Medi. Hannai o Ogledd Iwerddon ac mi oedd yn awdures doreithiog ac wrthi yn ysgrifennu llyfr ar hyn o bryd. Aeth i Lundain i dreulio y Nadolig gyda'i merch a'i theulu ond ni ddaeth yn ôl. Mae gennym i gyd yn yr ardal atgofion melys iawn amdani hi a Ken.

### Newid aelwyd

Dymuniadau gorau i Meriel Morgan - gynt o Is y Coed, Aber-ffrwd – yn ei chartref newydd yn y Gorlan, Capel Seion. Treuliodd hi a'i diweddar ŵr Vivian dros hanner canrif yn Aber-ffrwd ac mae yn chwith meddwl am y pentref hebddoch. Gobeithio y cewch iechyd gwell i fwynhau bywyd yn eich cartref newydd.

### Urdd y Benywod

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Ngwesty yr Hafod Pontarfynach pryd y daeth nifer dda o aelodau a›u partneriaid ynghyd. Cawsom groeso cynnes gan Dewi a Nicholl Gwyn a mwynhawyd cinio blasus iawn. Diolchodd Norma Stephens yn gynnes i bawb a weithiodd i wneud y noson yn llwyddiant a chyflwynwyd tusw o flodau i Norma gan iddi ddathlu pen blwydd arbennig ddechrau Ionawr.




## Cyngor Cymuned Melindwr

Cynhaliwyd pwyllgor cyntaf y flwyddyn ar Nos Iau 19 o Ionawr yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Dechreuwyd trwy groesawu Lyn Davies fel ein clerc newydd a hefyd unwaith eto diolch i Elaine Lewis am ein helpu dros dro.

Gan fod pethau wedi bod yn dawel dros adeg y Nadolig nid oedd fawr ddim i adrodd ers y pwyllgor diwethaf ond penderfynwyd eto i atgoffa y Cyngor fod sefyllfa Pont Rhiwarthen yn niweidiol i fusnesau yr ardal.

Adroddodd y Cadeirydd ei bod yn siomedig nad oedd wedi cael unrhyw ymateb am brisiau am y meinciau oddi wrth y busnesau lleol roedd wedi cysylltu gyda nhw. Penderfynwyd - os na fyddai ateb yn y dyfodol agos - fe fyddai rhaid edrych ymhellach.

Fe fu cryn drafodaeth am sefyllfa cyfrifon y Cyngor ac maent nawr yn barod i gael eu danfon ymlaen i'w archwilio. Hefyd penderfynwyd nad ydym yn codi'r stipend eleni gan fod gennym arian wrth gefn ar hyn o bryd a gwahoddir ceisiadau oddi wrth gymdeithasau a sefydliadau lleol am grantiau bach (hyd at £500) i gefnogi gweithgareddau neu prosiectau lleol neilltuol. Gofynnir i'r ceisiadau gynnwys y canlynol

1. amlinelliad o'r prosiect / gweithgaredd – i nodi budd y prosiect i'r ardal neu i frodorion yr ardal
2. manylion o gyllid y gweithgaredd / prosiect a pha elfennau y mae'r cais i'w ariannu
3. copi o fantolen ariannol mwyaf diweddar y sefydliad neu gymdeithas

Dylid anfon y wybodaeth i Jean Watson, Cadeirydd Cyngor Cymuned Melindwr, Blaen Rhos, Pant-y-Crug, Capel Seion, Aberystwyth SY23 4EF, neu trwy ebost i jeanwatsoncc@aber.ac.uk ac i arthen@btinternet.com i gyrraedd erbyn dydd Llun 13eg o Fawrth 2017.

Cynhelir y pwyllgor nesaf ar Chwefror 16 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

*Trefnwyr Angladdau*

***C T Evans***

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

**y tincer**
ytincer@googlemail.com

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**CHWILIO AM LE I GYNNAL CYFARFOD, CYNGERDD NEU DDIGWYDDIAD ARALL?**

Mae gan Morlan neuadd fawr, dwy ystafell bwyllgor a bar coffi cysurus sy'n addas ar gyfer pob math o weithgarwch. Telerau gostyngol i grwpiau cymunedol, crefyddol ac elusennol.

**Cysylltwch am wybodaeth bellach: 01970-617996 neu morlan.aber@gmail.com**

*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH*
*01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan*

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# *Llun y mis*

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



**Machlud y Borth**


# Cyhoeddi logo buddugol

**Cyhoeddi logo diogelwch ar-lein newydd i Gymru mewn digwyddiad Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn y Senedd.**

Datgelwyd logo buddugol cystadleuaeth Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel dydd Mawrth Chwefror 7fed. Cafodd ei ddylunio gan Isabel Bates o Ysgol Gyfun Bryn Celynnog ym Meddau, ger Pontypridd.

Dathlir Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn fyd-eang ym mis Chwefror bob blwyddyn er mwyn hybu defnydd diogel a phositif o dechnoleg ddigidol ar gyfer dysgwyr.

Yng Nghymru, mae'r UK Safer Internet Centre wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gynnal ymgyrch Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel. Cystadlodd mwy na 100 o ieuenctid o bob cwr o'r wlad yn y gystadleuaeth logo Parth Diogelwch Ar-lein a lansiwyd ym mis Tachwedd.




Daeth pawb a oedd yn y rownd derfynol i ddigwyddiad Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn y Senedd a chyhoeddodd Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, enw'r enillydd. Roedd yr ysgolion yn y rownd derfynol yn cynnwys Ysgol Fodel yr Eglwys yng Nghymru, Ysgol Arbennig Portfield, ac Ysgol Penrhyn-coch lle oedd logo Osian Petts wedi denu sylw y beirniaid.

Mae logo Isabel bellach wedi ei ychwanegu at y Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb, ble gall ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr gael llawer o gyngor, gwybodaeth ac adnoddau ymarferol yn ymwneud â diogelwch ar-lein.

Gwelir logo Osian yma. Bu un o'i ffrindiau – Gwion – i lawr efo fo yng Nghaerdydd a gwelir eu llun ar y clawr.

Llongyfarchiadau i'r ysgol fuddugol, i bawb yn y rownd derfynol a diolch o galon i'r holl bobl ifanc a gymerodd ran yn y gystadleuaeth.

Meddai Osian: "Roeddwn yn teimlo'n nerfus iawn cyn mynd ar y llwyfan. Meddyliais bod yn rhaid i fi ddweud rhywbeth ond diolch fyth doedd dim rhaid i fi! Roedd yna sawl camera yn tynnu lluniau a bu bron i mi gwympo o'r llwyfan gyda un fflach! Roeddwn yn falch iawn o dderbyn yr ail wobr."

# Ysgol Pen-llwyn

### Chwaraeon

Bu disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 yn cymryd rhan yn y gêmau pêl rwyd yng Nghanolfan Hamdden Plas-crug yn ddiweddar gan gyrraedd y rownd gyn-derfynol. Da iawn chi! Llongyfarchiadau mawr hefyd i Anna a Deian a aeth drwodd i Gala nofio terfynol Cylch Aberystwyth – nofwyr penigamp !

### Diwrnod Santes Dwynwen

Cynhaliodd Dosbarth 2 barti Santes Dwynwen ar y dydd fel canlyniad i'w gwaith ar y chwedl Gymreig. Buont yn dylunio gwahodddiadau lliwgar ac yn addurno'r Neuadd yn hardd ar gyfer y parti. Gwahoddwyd Dosbarth 1 a 3 i ymuno yn y dawnsio a'r gêmau a chafwyd llawer o hwyl. Roedd y plant yn ogystal wedi gwisgo lliwiau coch, gwyn a gwyrdd fel ffordd o godi arian at yr Urdd.

### Blwyddyn newydd China

Bu Dosbarth 1 yn dysgu am ddathlu Blwyddyn newydd y Chineaid yn ddiweddar fel rhan o'u thema 'Dreigiau a Chestyll'. Daeth Dr Joan (sy'n hannu o China) draw i'r dosbarth am brynhawn i ddangos sut mae pobl Asia yn dathlu'r wŷl .Dysgodd y plant am arwyddion sodiac blwyddyn eu geni a gwelwyd bod nifer dda ohonynt yn blant y ddraig! Cawsant weld perfformiad o Ddawns y llew a Dawns y ddraig ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol ynghyd â stori'r anghenfil Nina. Buont yn blasu bisgedi o'r wlad, yn arbrofi gyda 'chopsticks', yn addurno melinau gwynt ac yn rhoi cynnig ar ffurfio llythyren Chineaidd ar bapur 'anweledig'. Cafodd y plant brynhawn i'w gofio.

### Paratoadau at ddathliadau'r 50 mlynedd

Bu dosbarthiadau 2 a 3 ar ymweliad â'r Archifdy ddydd Mercher , Chwefror y 1af. Yno cawsant weld dau lyfr log o ddyddiau cynharaf yr ysgol ynghyd â map o'r ardal cyn fod arwydd o ysgol na thai ym Mhen-llwyn ! Cawsant hefyd weld lluniau o gyn-ddisgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol 'newydd'yn 1967. Byddwn yn cynnal Prynhawn coffi ar Chwefror yr 28ain pryd y byddwn yn croesawu cyn-ddisgyblion, cyn-rieni, cyn-athrawon a charedigion yr ysgol i rannu unrhyw luniau, arteffactau ac atgofion gyda ni ac i sgwrsio gyda'r disgyblion presennol.












# Ysgol Craig yr Wylfa

### Sesiynau Natur

Y tymor yma, rydym wedi dechrau sesiynau Natur unwaith yr wythnos o dan arweinyddiaeth Cath Cave a Rachel Thomas a rhieni eraill sy'n gwirfoddoli, beth bynnag y tywydd! Hyd yma rydym wedi bod yn creu dynion bach gwyrdd allan o glai a phethau naturiol. Hefyd rydym wedi cael prynhawn hyfryd lawr ar y traeth yn creu murluniau a dysgu ffeithiau am greaduriaid y môr, a sesiwn arall tu allan yr ysgol yn creu peli o fwyd i'r adar, a gwylio/gwrando allan am adar o'n hamgylch. Yn ystod sesiwn olaf y mis, bum yn creu "Daliwr Breuddwydion" prydferth yr un allan o wlân a helyg.

### Gala nofio'r Cylch

Bu 10 o ddisgyblion CA2 yn cymryd rhan yng ngala nofio'r cylch. Llwyddodd Finn, Dylan, Connor a Reece i fynd ymlaen i'r ail rownd. Arbennig fechgyn! Daeth Finn yn gyntaf yn ei ras ef – da iawn!!

### Trip Gwyddoniaeth CA2


Bu dosbarth Cyfnod Allweddol 2 ar drip i Brifysgol Aberystwyth i ddysgu am ynni. Cafodd y plant gyfle i gymryd rhan yn y sesiwn - gwyddonwyr y dyfodol efallai?

### CogUrdd

Cymerodd pedwar disgybl o Gyfnod Allweddol 2 ran yng nghystadleuaeth "CogUrdd". Y dasg oedd i goginio Blodfresych mwsaca blasus. Roedd pob un ohonynt wedi dilyn y rysáit yn fanwl gywir, gan ddefnyddio technegau coginio gwych ac arddangos eu prydiau yn daclus a deniadol iawn! Beirniadodd Miss Ann y gystadleuaeth, ac am dasg anodd oedd ganddi! Daeth Finn yn fuddugol, Glyn yn ail a Katy a Noah yn gydradd drydydd. Da iawn pob un ohonoch.













# Ysgol Rhydypennau

### Rasys Rhydypennau

Trefnodd pwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol 'Noson Rasys' yn neuadd yr ysgol yn ddiweddar. Gyda chymorth technoleg a brwdfrydedd rhieni a phlant yr ysgol cafwyd noson dda o ran hwyl a mwynhad heb anghofio codi swm sylweddol at goffre'r ysgol. Gruffydd Siôn, Shane Evans ac Elen Ifans ddisgleiriodd gyda'u dewisiadau doeth yn ystod y miri; mae'n amlwg fod ganddynt lygad craff am geffyl da! Diolch i'r pwyllgor am drefnu ac yn enwedig i Jon am ei waith hanfodol cyn ac yn ystod yr achlysur.

### Pwyllwch!

Bu aelodau o'r Cyngor Ysgol yn brysur ddydd Gwener 3ydd o Chwefror yn cadw golwg manwl ar y traffic tu allan i'r ysgol. Gyda chymorth PC Goffin a chamera cyflymdra, tynnwyd nifer o yrwyr i mewn i'r ysgol er mwyn i'r plant eu croesholi gan iddynt fethu a glynu at y cyflymdra cyfreithiol. Yn ystod y bore fe ddaeth y gohebydd Craig Duggan i gyfweld â'r plant; efallai i chi weld cip olwg o'r hanes ar y rhaglen 'Ffeil' yn ddiweddar.

### Nofio

Da iawn i bawb a fu'n nofio yng ngala ysgolion ardal Aberystwyth ym mhwll nofio Plas-crug yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am lwyddo i orffen yn y tri cyntaf; Carys Watkins – Rhydd i ferched bl 3-2il; Noa Elias-Broga i fechgyn bl 3 a 4-2il; Moana Raggett- Rhydd i ferched bl 6-2il; Elen Morgan-Broga i ferched bl 6-2il; Elen Morgan-Pili Pala i ferched bl 6-1af; tîm cyfnewid Cymysg i ferched bl 3 a 4-3ydd-Alys Griffiths, Carys Watkins, Llio Morgan, Erin Hesden- Kenny; tîm cyfnewid Rhydd i ferched bl 3 a 4-3ydd-Freya Cooke, Carys Watkins, Llio Morgan, Erin Hesden-Kenny; a thîm cyfnewid Rhydd i ferched bl 6-3ydd-Moana Raggett, Elin Gore, Catrin Taylor, Elen Morgan.

Nodyn arbennig hefyd i Elen Morgan am iddi gystadlu mor dda yng Ngala Cenedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ddiwedd fis Ionawr, profiad gwych a diwrnod arbennig iawn, Da iawn Elen!

### Pêl-rwyd

Ar y 12fed o Ionawr cynhaliwyd cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd yn y ganolfan hamdden. Chwaraeodd y tîm yn wych gan guro timoedd da iawn a chyrraedd y rownd gyn-derfynol.

### Clwb Cant

Mae'r amser wedi cyrraedd eto i ymuno â chlwb cant yr ysgol. Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol unwaith eto yn parhau i wahodd rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol i ymaelodi â'r Clwb 100. Mi fydd yr aelodaeth yn parhau, fel y llynedd, am flwyddyn gan ddechrau ym mis Mawrth a gorffen ym mis Rhagfyr. Bydd hi'n angenrheidiol i bob aelod dalu tâl aelodaeth blynyddol o ddeg punt a fydd yn talu am gost pob cyfle i ennill yn ystod y cyfnod. Cyfanswm yr holl arian sef gwobrau'r flwyddyn fydd pum cant punt. Bydd yr holl elw yn mynd at bwyllgor CRhA ac felly tuag at yr ysgol. Mi fydd y gwobrau misol fel a ganlyn:
1af- £25 2il-£15 3ydd-£10
Os am ymuno â'r clwb cysylltwch â Lynwen Evans 07815323685



**Noson Rasys-Gruffydd Siôn, Shane Evans ac Elen Ifans.**



**Elen Morgan-nofwraig o fri!**



**Craig Duggan yn cyfweld Cai Jenkins.**



**Plant llwyddiannus gala cylch Aberystwyth.**




**Tîm pêl-rwyd yr Ysgol.**

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.*

# Ysgol Penrhyn-coch

### Gala nofio yr Urdd

Llongyfarchiadau i Lowri Bishop am ennill yr 2il safle yn y Ras Gefn ac Osian Petts am ennill 3ydd safle yn y broga yng ngala nofio'r Cylch. Roeddym yn falch iawn bod yna dîm pêl-rwyd wedi cystadlu yng ngŵyl pêl- rwyd yr Urdd-da iawn chi ferched a bechgyn.

### Tîm hoci yr Ysgol

Llongyfarchiadau mawr i dîm hoci Bro Dafydd wrth iddyn nhw ddod yn 2il yn y Gynghrair lleol ac i dîm Penrhyn am ddod yn 3ydd - hyfforddi gwych Miss Cory!

### Sustrans

O dan adain ysgolion iach Ceredigion rydyn wedi cychwyn ar gynllun teithio iach i'r Ysgol. Nod y cynllun yw i hybu mwy o feicio, sgwtera a cherdded i'r Ysgol ac yn sgil hyn mae menter 'Sustrans' yn cefnogi'r Ysgol wrth drefnu gweithgareddau hwylus i godi ymwybyddiaeth a phwysigrwydd o deithio'n ddiogel.

Felly cafon weithdy i addurno ein beiciau/sgwteri yn ogystal a chyfle i adnewyddu siaced neu siwmper y bydden yn eu gwisgo wrth deithio ar y ffordd.

Erbyn hyn mae ganddon ni 'griw teithio iach' sef- Connor D, Gwion W, Osian P, Mia B a Cerys H.



### Diwrnod Santes Dwynwen

Ar Ionawr yr 25ain fe fuon yn dathlu diwrnod Santes Dwynwen ac yn gyfuniad i'r diwrnod fe wnaethom ddathlu pwysigrwydd Mudiad yr Urdd trwy wisgo unrhyw beth Coch, gwyn a gwyrdd.



**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
**TEGWYN LEWIS**
01970 880627

GWASANAETH
**TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
**IONA BAILEY**
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH
**GARDDIO**
**ROBERT GRIFFITHS**
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

**GWASANAETH CYFIEITHU**
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# Tasg y Tincer

Diolch i bawb fu'n brysur yn lliwio llun y ddraig Chineaidd y mis diwethaf. Am luniau lliwgar! Dyma'r enwau: Einion Davies, Llanilar; Twm Williams, Penrhyn-coch; Anest Erwan, Bow Street; Owain Herron, Bow Street; Ffion Wynne Jones, Dolgellau; Lewis Ashton, Llanilar; Osian Hatfield, Bont-goch. Diolch hefyd i Lois Ela James, Machen, am ei llun hyfryd o'r plant yn canu carolau.

Braf gweld enwau newydd yn rhoi cynnig ar y gystadleuaeth. Daliwch ati! Ar ôl tyrchu yng ngwaelod yr het, dy enw di, Twm, ddaeth allan yn gyntaf – llongyfarchiadau mawr!

Mae Chwefror a Mawrth yn fisoedd prysur ac yn llawn digwyddiadau. Byddwn yn dathlu Dydd Mawrth Ynyd ar ddiwrnod olaf y mis hwn, sef Dydd Mawrth Crempog – hwrê! Ac wrth gwrs, mae un o ddyddiau pwysica'r flwyddyn yn dod wrth ei gwt, sef Mawrth y 1af – Dydd Gŵyl Ddewi. Ar ôl cael crempog ar Ddydd Mawrth Ynyd, gallwn fwynhau cawl a phice ar y maen, a digon o ddanteithion blasus eraill, ar ddydd ein nawddsant. Fyddwch chi'n gwisgo cenhinen, tybed, neu genhinen Bedr? "Gwisg genhinen yn dy gap a gwisg hi yn dy galon" – rhywbeth pwysig iawn i'w gofio! A beth sy'n dilyn Gŵyl Ddewi, ar Fawrth yr 2il? Diwrnod y Llyfr! Cofiwch ddathlu hwnnw hefyd. Beth am fynd â'ch hoff lyfr i'r ysgol, neu wisgo fel eich hoff gymeriad?

Mae'r plant yn cael modd i fyw'n darllen eu hoff storïau ar Ddiwrnod y Llyfr, felly beth am liwio'r llun? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn dydd Gŵyl Ddewi – Mawrth 1af. Ta ta tan toc!



Twm



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Ariennir yn Rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**

CYMRAEG

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
**BRONLLYS, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH**

ISSN 0963-925X
9 770963 925009

*Rhif 396 | CHWEFROR 2017*